# FFEDERASIWN FFERMWYR IFANC ERYRI

England & Wales · Charity number 1167065

## Details

| | |
|---|---|
| **Other names** | FFERMWYR IFANC ERYRI |
| **Status** | Registered |
| **Legal form** | CIO |
| **Registered** | 2016-05-12 |
| **Register** | View on the Charity Commission register |

## Contact

| | |
|---|---|
| **Address** | Cffi Eryri<br>Adeilad Nfu<br>19 Stryd Bangor<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1AT |
| **Phone** | 07881752865 |
| **Email** | Eryri@yfc-wales.org.uk |

## Activities

**Objects:** TO ADVANCE THE EDUCATION AND PERSONAL DEVELOPMENT OF YOUNG MEMBERS OF THE PUBLIC AT LARGE IN AGRICULTURE, RURAL LIFE AND AFFAIRS, INTERNATIONAL UNDERSTANDING, HOME CRAFTS AND RELATED SUBJECTS; AND IN THE INTERESTS OF THE SOCIAL WELFARE OF SUCH MEMBERS TO PROVIDE AND PROMOTE THE PROVISION OF FACILITIES OF RECREATION AND OTHER LEISURE TIME OCCUPATIONS, BEING FACILITIES WHICH WILL IMPROVE THEIR SPIRITUAL AND MENTAL CAPACITIES, HEATH AND WELL BEING, RAISE AWARENESS, SELF RELIANCE AND INDIVIDUAL RESPONSIBILITY SO THAT THEY MAY DEVELOP AS INDIVIDUALS INTO FULL CITIZENS.TO PROMOTE ITS ACTIVITIES THROUGH THE MEDIUM OF WELSH AND TO ENSURE THOSE ACTIVITIES ENHANCE THE MEMBERS UNDERSTANDING AND KNOWLEDGE OF WELSH RURAL LIFE, WELSH CULTURE AND THE WELSH LANGUAGE, ALONG WITH PROVIDING AN UNDERSTANDING OF OTHER LANGUAGES AND CULTURES.

**Activities:** WE ARE A DEMOCRATIC MOVEMENT WHICH COVERS NORTH GWYNEDD AND THE CONWY VALLEY AND THE MEMBERS CHOOSE WHICH ACTIVITIES AND COMPETITIONS THEY WANT IN OUR PROGRAME FOR THE YEAR. WE HAVE STOCK JUJING, PUBLIC SPEAKING, EISTEDDFOD, QUIZ, RALLY DAY, FIELD DAY, WINTER FAIR DAY, AND MANY OTHER ACTIVITIES THROUGH OUT THE YEAR.

Downloaded from opencharities.uk/ew/1167065

## Classification

- **How:** Provides Services, Provides Advocacy/advice/information, Acts As An Umbrella Or Resource Body
- **What:** General Charitable Purposes, Education/training, Arts/culture/heritage/science, Amateur Sport, Animals, Environment/conservation/heritage, Economic/community Development/employment
- **Who:** Children/young People, People With Disabilities, The General Public/mankind

## Geography

- Conwy
- Gwynedd

## Finances

| Period end | Income | Expenditure | Assets | Employees |
|---|---|---|---|---|
| 2025-06-30 | - | - | - | - |
| 2024-06-30 | £98,551 | £80,346 | - | - |
| 2023-06-30 | £113,260 | £114,895 | - | - |
| 2022-06-30 | £79,060 | £52,363 | - | - |
| 2021-06-30 | £134,537 | £126,417 | - | - |
| 2020-06-30 | £80,548 | £80,732 | - | - |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1167065

## Trustees

| Name | Role | Appointed |
|---|---|---|
| **IWAN HUW HARPER** | Chair | 2018-09-01 |
| Anest Hughes | | 2024-09-06 |
| Anest Jones | | 2024-09-06 |
| Anwen Bumby | | 2024-09-06 |
| Arthur Williams | | 2024-09-06 |
| Awel Evans | | 2024-09-06 |
| Caron Hughes | | 2024-09-06 |
| Catrin Glyn Jones | | 2024-09-06 |
| Cian Rhys | | 2024-09-06 |
| Efa Jones | | 2024-09-06 |
| Ela Fflur Jones | | 2019-09-01 |
| Elen Williams | | 2024-09-06 |
| Elin Owen Jones | | 2018-04-01 |
| Elliw Newsham | | 2024-09-06 |
| Gethin Wynne | | 2019-09-01 |
| Gwen Thomas | | 2024-09-06 |
| Gwenlli Thomas | | 2024-09-06 |
| Lois Elan Jones | | 2024-09-06 |
| Lora Pritchard | | 2024-09-06 |
| MEINIR ANGHARAD Jones | | 2018-09-01 |
| Marion Llwyd Hughes | | 2024-09-06 |
| Morgan Jones | | 2024-09-06 |
| Non Griffith | | 2024-09-06 |
| Rhodri Jones | | 2024-09-06 |
| Sallie Ann Roberts | | 2024-09-06 |
| Sion Roberts | | 2024-09-06 |
| Sioned Wyn Jones | | 2018-04-01 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1167065

| Name | Role | Appointed |
| --- | --- | --- |
| Ynyr Roberts | | 2024-09-06 |

Downloaded from opencharities.uk/ew/1167065

FFEDERASIWN FFERMWYR IFANC ERYRI

England & Wales - Charity number 1167065

# Accounts

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI
## GWERTH Y FFEDERASIWN AR MEHEFIN 30ain 2024

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol *(NATWEST)* | £8,399.33 |
| Cyfrif Cadw *(NATWEST)* | £0.00 |
| Cyfrif Clwb 200 *(NATWEST)* | £3,727.00 |
| Cyfrif Hyfforddiant *(NATWEST)* | £5,460.49 |
| Cyfrif Cyfredol *(HSBC)* | £50,276.29 |
| Cyfrif Cadw *(HSBC)* | £86,928.68 |
| Cyfrif Tripiau *(HSBC)* | £0.00 |
| Cyfrif Hyfforddiant *(HSBC)* | £0.00 |
| **Cyfanswm** | **£ 154,791.80** |

(Gwerth y Ffederasiwn ar Mehefin 30ain 2023 = £136,216.71)

### MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2024

**Cyfrif Cyfredol Natwest 15500039**

| | DERBYNIADAU £ | TALIADAU £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2023 | 7,109.53 | |
| Swyddfa | 0.00 | 605.86 |
| Llungopiwr | 0.00 | 335.34 |
| Hyfforddiant Aelodau | 0.00 | 250.00 |
| Grant Cyngor Conwy 24-25 | 2,231.00 | 0.00 |
| Trosglwyddiad gan Natwest - Hyfforddiant | 250.00 | 0.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2024 | | 8,399.33 |
| **CYFANSWM** | **9,590.53** | **9,590.53** |

* Talwyd am Hyfforddiant o'r cyfrif yma mewn cam-gymeriad eleni, a trosglwyddwyd arian o'r Natwest - Hyfforddiant i wneud yn iawn amdano. *

**TRYSORYDD: ______________________________________________**
**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:______________________________________________**
**Glesni Lewis Cyn Is-drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

# MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2024

**Cyfrif Cadw Natwest - 15511588**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2023 | 0.00 | |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2024 | | 0.00 |
| **CYFANSWM** | **0.00** | **0.00** |

**TRYSORYDD: ________________________________________________**
**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:________________________________________________**
**Glesni Lewis Cyn Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

# MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2024

**Cyfrif Clwb 200 Natwest – 15500063**

| | DERBYNIADAU £ | TALIADAU £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2023 | 2,114.00 | |
| Tâl Aelodaeth | 1,658.00 | |
| Gwobrau 2023-24* | | 45.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2024 | | 3,727.00 |
| **CYFANSWM** | **3,772.00** | **3,772.00** |

* Gwerth £370.00 o wobrau 2023-24 wedi eu prosesu ar 01/07/2024 ac felly mi fûm i'w gweld ar fantolen flwyddyn nesaf *

**TRYSORYDD: ________________________________________________________**
**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:________________________________________________________**
**Glesni Lewis Cyn Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

# MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2024

**Cyfrif Hyfforddiant Natwest – 73751073**

*Gelwir y cyfrif yma yn 'Natwest – Tripiau' tan eleni, bellach wedi ei ail-enwi yn 'Natwest – Hyfforddiant'.*

| | **DERBYNIADAU £** | **TALIADAU £** |
|---|---:|---:|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2023 | 0.00 | |
| Trosglwyddiad o'r HSBC Hyfforddiant | 5,460.49 | 0.00 |
| Trosglwyddiad i'r Natwest Cyfredol | 0.00 | 250.00 |
| Hyfforddiant Cneifio | 0.00 | 120.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2024 | | 5,090.49 |
| **CYFANSWM** | **5,460.49** | **5,460.49** |

**TRYSORYDD: ________________________________________________**
**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:________________________________________________**
**Glesni Lewis Cyn Is-Drysorydd CFFI Eryri**

## CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2024

**Cyfrif Cyfredol HSBC - 51846477**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2023 | 35,532.19 | |
| Aelodaeth 2024-24 | 9,350.00 | 10,000.00 |
| Ad-daliad Aelodaeth | 4,586.36 | 0.00 |
| Yswiriant (Aelodau) | 0.00 | 2,595.32 |
| Yswiriant (Atebolrwydd Cyfarwyddwyr a Swyddogion) | 0.00 | 1,834.84 |
| Rali 2024 | 1,000.00 | 228.00 |
| Rali 2024 | 34,087.45 | 17,359.37 |
| Erwau 2024 | 145.00 | 0.00 |
| Erwau 2024 | 7,385.00 | 3,425.00 |
| Diwrnod Gwaith Maes | 0.00 | 204.00 |
| Ffug Eisteddfod | 0.00 | 86.60 |
| Siarad Cyhoeddus | 0.00 | 28.99 |
| Nawdd BUTE *(tuag at Siarad Cyhoeddus)* | 1,000.00 | 0.00 |
| Eisteddfod Sir Eryri | 3,516.35 | 2,090.65 |
| Eisteddfod Cymru | 340.00 | 0.00 |
| Eisteddfod Gen. Llŷn ac Eifionydd | 50.00 | 43.91 |
| Ffair Aeaf | 20.00 | 160.04 |
| Pwyllgor Blynyddol | 0.00 | 180.00 |
| Dathliad 80 | 385.00 | 700.00 |
| Cynghorau Cymuned | 1,500.00 | 0.00 |
| Dawns Ionawr | 3,700.00 | 2,945.75 |
| Ras Aredig | 40.00 | 90.00 |
| Pŵl a Darts | 0.00 | 101.50 |
| Rygbi | 0.00 | 50.00 |
| CFfI Cymru – Cynllun Wyn Dunbia | 17.80 | 0.00 |
| Pwyllgor Apêl Sioe Frenhinol | 223.94 | 223.94 |
| Tocynnau Dramâu Cymru | 195.00 | 195.00 |
| Swyddfa | 0.00 | 3,512.58 |
| Cyfrifydd | 0.00 | 136.80 |
| Trwydded | 0.00 | 143.88 |
| Blaen-dal Dramâu Cymru | 250.00 | 0.00 |
| Engrafu Tariannau | 77.00 | 173.00 |

| | | |
|---|---:|---:|
| Aelodaeth Clwb 200 | 12.00 | 0.00 |
| Ffi Banc - HSBC | 0.00 | 281.23 |
| CFFI Cymru | 0.00 | 0.00 |
| Costau Teithio Staff | 0.00 | 785.10 |
| Costau Teithio Cadeirydd | 0.00 | 125.10 |
| Hyfforddiant Staff | 0.00 | 150.00 |
| DBS | 54.00 | 64.80 |
| Gwerthu Mwg Iechyd Meddwl | 8.00 | 0.00 |
| Cyflog | 800.62 | 26,942.14 |
| Gwerthu'r Trelar i Cool Hire | 6,500.00 | 0.00 |
| Grant Haf o Hwyl (LLC) | 500.00 | 500.00 |
| Grant Llywodraeth Cymru | 7,356.00 | 0.00 |
| Grant Arfor | 2,400.00 | 0.00 |
| Cynllun Ffrindiau | 5,024.00 | 0.00 |
| Trosglwyddiad o/i Gyfrif Hyfforddiant (HSBC) | 0.00 | 531.88 |
| Trosglwyddiad o Gyfrif Tripiau (HSBC) | 40.00 | 30.00 |
| Siec wedi'i chanslo | 100.00 | 0.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2024 | | 50,276.29 |
| **CYFANSWM** | **126,195.71** | **126,195.71** |

**TRYSORYDD: ______________________________________________________**
**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:______________________________________________________**
**Glesni Lewis Cyn Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2024

**Cyfrif Cadw HSBC 81846612**

| | DERBYNIADAU £ | TALIADAU £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2023 | 85,300.00 | |
| Llog | 1,628.68 | |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2024 | | 86,928.68 |
| **CYFANSWM** | **86,928.68** | **86,928.68** |

**TRYSORYDD: ____________________________________________________**
**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:____________________________________________________**
**Glesni Lewis Cyn Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2024

**Cyfrif Tripiau HSBC - 61846590**

| | DERBYNIADAU £ | TALIADAU £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2023 | 0.00 | |
| Ffioedd Banc | 10.00 | 60.00 |
| Trip Dirgel | 2,185.00 | 2,235.00 |
| Swyddfa | 0.00 | 115.98 |
| Teithio | 0.00 | 90.90 |
| Blaendal Dramâu CFFI Cymru | 0.00 | 250.00 |
| Trosg. i gyfrif cyfredol HSBC | 0.00 | 0.00 |
| Trosg. o gyfrif cyfredol HSBC | 556.88 | 0.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2024 | | 0.00 |
| **CYFANSWM** | **2,751.88** | **2,751.88** |

* Talwyd am gostau teithio, cadair swyddfa a blaen-dal dramâu CFfI Cymru o'r cyfrif yma mewn cam-gymeriad eleni, a trosglwyddwyd arian o'r cyfredol i wneud yn iawn amdano. *

**TRYSORYDD: ________________________________________________**
**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:________________________________________________**
**Glesni Lewis Cyn Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2024

**Cyfrif Hyfforddiant HSBC - 81846604**

| | DERBYNIADAU £ | TALIADAU £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2023 | 6,160.99 | |
| Ffioedd Banc | 0.00 | 60.00 |
| Hyfforddiant Towio Trelar | 150.00 | 300.00 |
| Hyfforddiant Cymorth Cyntaf | 0.00 | 520.50 |
| Trip Dirgel * | 25.00 | 0.00 |
| Erwau * | 40.00 | 0.00 |
| Trosglwyddiadau o'r HSBC Cyfredol | 30.00 | 0.00 |
| Trosglwyddiadau i'r HSBC Cyfredol | 0.00 | 40.00 |
| Trosglwyddiadau i'r HSBC Tripiau | 0.00 | 25.00 |
| Trosglwyddiadau i'r Natwest ** | 0.00 | 5,460.49 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2024 | | 0.00 |
| **CYFANSWM** | **6,405.99** | **6,405.99** |

* Derbynir daliad am Drip Dirgel a hysbyseb Erwau i'r cyfrif hwn mewn cam-gymeriad eleni, a trosglwyddwyd yr arian i'r cyfrif Tripiau ac i'r cyfrif Cyfredol *

** Yn sgil y ffaith fod HSBC bellach yn codi ffi misol £5 ar bob cyfrif eleni, penderfynwyd gan y Pwyllgor Gwaith i symud y gronfa hon i gyfrif Natwest fel nad oedd y gronfa'n gorfod llyncu'r gost hon.  Bwriedir geisio cau'r cyfrif hwn yn 2024-25 **

**TRYSORYDD: ____________________________________________________**
**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:____________________________________________________**
**Glesni Lewis Cyn Is-Drysorydd CFFI Eryri**

**FFEDERASIWN FFERMWYR IFANC ERYRI**

England & Wales - Charity number 1167065

# Accounts

## COFNODION PWYLLGOR BLYNYDDOL CFFI ERYRI

**Dyddiad:** **Nos Wener, 8 Medi 2023**

**Amser:** **19:30**

**Lleoliad:** **Newborough Arms, Bontnewydd**

---

| | | PG |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU**:<br>Derbyniwyd ymddiheuriad gan Glwb y Rhiw | |
| 2. | **PRESENNOL**:<br>Geraint Puw, Llywydd y sir – Cadeirydd<br>Gwen Thomas, Dyffryn Nantlle, Cadeirydd y sir 2022/23<br>Sioned Wyn Jones, Caernarfon, Is-gadeirydd y sir 2022/23<br>Elin Owen Jones, Godre'r Eifl, Trysorydd y sir 2022/23<br>Glesni Lewis, Dyffryn Nantlle, Is-drysorydd y sir 2022/23<br>Gwenlli Thomas, Godre'r Eifl – Ysgrifennydd<br>Carwyn Edwards, Swyddog Cefnogi'r sir<br>Elin Jones, Swyddog Cefnogi (ar gyfnod mamolaeth)<br>Huw Thomas, Is Lywydd y sir<br>Anwen Bumby, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Staffio<br>Begw Williams, Dyffryn Madog<br>Esyllt Williams, Dyffryn Madog<br>Marian Puw, Dyffryn Madog<br>Mererid Prys Owen, Llangybi<br>Cian Iolen Rhys, Dyffryn Ogwen<br>Myfanwy Harper, Aelod Anrhydeddus<br>Swyn Owen, Dyffryn Ogwen<br>Iwan Harper, Dyffryn Ogwen<br>Sallie Roberts, Dyffryn Ogwen<br>Dylan Roberts, Llanrwst<br>Huw Roberts, Llanrwst<br>Arthur Williams, Llanrwst<br>Lois Jones, Dyffryn Nantlle<br>Elen Williams, Dyffryn Nantlle<br>Cai Williams, Rowen<br>Elliw Newsham, Rowen<br>Megan Williams, Rowen<br>Heledd Williams, Rowen<br>Caron Hughes, Rowen<br>Cai Hughes, Rowen<br>Alaw Morgan, Caernarfon<br>Non Griffith, Caernarfon<br>Rhodri Jones, Godre'r Eifl<br>Tomos Dobson, Porthdinllaen<br>Beca Dobson, Porthdinllaen<br>Lora Jen, Llangybi | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 3. | **DERBYN COFNODION**:<br>Derbyn Cofnodion – 30.09.2022<br>Derbyniwyd y cofnodion yn gywir gan Tomos Dobson ac eiliodd Glesni Lewis. | |
| 4. | **MATERION YN CODI O'R COFNODION**<br>Ni chodwyd unrhyw faterion. | |
| 5. | **GOHEBIAETH**<br>Nid oedd unrhyw ohebiaeth | |
| 6. | **ADRODDIAD CADEIRYDD Y MUDIAD**<br>Croesawodd Gwen Thomas bawb i'r Pwyllgor Blynyddol. Dywedodd ei bod wedi bod yn flwyddyn hynod o brysur, heriol ond pleserus yn arbennig yn ystod ac arf ôl digwyddiadau. Nododd Gwen bod dau ddigwyddiad blynyddol yn sefyll allan iddi sef y Diwrnod Gwaith Maes a'r Ras Aredig. Teimlodd Gwen bod y ddau ddigwyddiad yn un a oedd yn mynd a'r mudiad yn ôl at ei gwreiddiau, sef amaethyddiaeth. Eglurodd mai eleni oedd y tro cyntaf iddi fynychu'r Ras Aredig ac iddi fwynhau yn llawer mwy na'r disgwyl. Diolchodd i Huw Thomas, Meillionnydd a'r Pwyllgor Ras Aredig am gynnwys y mudiad yn y diwrnod a rhoi cyfle i aelodau gystadlu. Cafodd Gwen fwynhad mawr yn gweld sgiliau ac ymroddiad yr aelodau. O ganlyniad i'r mwynhad a gafodd yno, anogodd yr aelodau i fynychu digwyddiad blynyddol CFfI Eryri nad ydynt wedi'i fynychu o'r blaen eleni.<br><br>Symudodd Gwen yn ei blaen i grynhoi digwyddiadau'r a gynhaliodd fel Cadeirydd eleni. Diolchodd i bawb a gyfrannodd yn ei gwasanaeth carolau rhithiol a rannwyd gyda chartrefi gofal yn y sir. Derbyniodd adborth cadarnhaol gan y cartrefi gofal oll. Cynhaliodd Gwen hefyd noson gemau i dri chlwb ar y tro mewn ymdrech i annog clybiau i gynnal mwy o ddigwyddiadau ar y cyd. Anogodd yr aelodau i geisio parhau nosweithiau ar y cyd.<br><br>Diolchodd Gwen i'r swyddogion sydd wedi ei chefnogi a chydweithio gyda hi drwy gydol y flwyddyn. Diolchodd i Elin Jones a Carwyn Edwards y swyddogion cefnogi. Diolchodd i Elin Owen Jones a Glesni Lewis am eu gwaith diwyd tu ôl i'r llenni fel trysoryddion y sir, a mynegodd y bydd colled fawr ar eu holau flwyddyn nesaf.<br><br>Cloeodd Gwen ei hadroddiad drwy amlygu bod y sir bellach yn ffynnu, a bod 100 yn fwy o aelodau ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â ffigyrau 2021/22. Anogodd yr aelodau i fanteisio ar bob cyfle a ddaw i'w rhan fel aelodau er mwyn cael profiadau bythgofiadwy a sgiliau oes. | |
| 7. | **ADRODDIAD ARIANNOL Y MUDIAD**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad canlynol gan Elin Owen Jones, Trysorydd y Sir 2022/23:<br><br>"Ar y 30 o Fehefin eleni, dyma'r cyfanswm a oedd yng nghyfrifon banc y ffederasiwn:<br>Cyfrif Cyfredol Natwest £7,109.53<br>Cyfrif Clwb 200 Natwest £2,114.00<br>Cyfrif Cyfredol HSBC £35,532.19 | |

Cyfrif Cadw HSBC £85,300.00
Cyfrif Hyfforddiant £6,160.99.
Nid fu symudiadau yn y Cyfrif Cadw na Thripiau Natwest eleni ac felly roedd eu cyfanswm yn £0.00, ac yn ôl dymuniad y pwyllgor gwaith, rydym wedi symud cyfanswm oedd yng nghyfrif Tripiau HSBC i'r cyfredol felly £0.00 oedd y cyfanswm ar ddiwedd y flwyddyn. Mae gwerth y ffederasiwn wedi cynyddu o £112,934.29 i £136,216.71 rhwng dechrau a diwedd y flwyddyn ariannol eleni. Mae'r cynnydd mewn gwerth yn deillio o ddau brif beth. Y rheswm cyntaf dros hynny ydy'r ffaith i glwb Ddyffryn Madog gynnal chwip o rali yn Llystyn Ganol eleni, ble gwnaethpwyd dros £24,000 o elw. Mae ein diolch yn mynd i deulu Llystyn, clwb Dyffryn Madog, holl noddwyr y Rali, holl gyfranwyr yr Erwau a phawb oedd yng nghlwm â'r trefnu 'lenni - roedd hi'n ddiwrnod bythgofiadwy! Yn ail, mae'r Sir yn hynod lwcus o haelioni mudiadau ac awdurdodau. Hoffwn gyfeirio at y gefnogaeth ydym yn ei gael gan NFU pob blwyddyn a hynny drwy gyfrannu'n hael tuag at ein Rali a'n costau staffio, a thrwy sicrhau fod gennym safle i'n swyddfa heb unrhyw gostau. Bûm yn lwcus iawn eleni i gael rhannu eu stondin ar faes yr Eisteddfod draw ym Moduan, ac yn ddiolchgar dros ben am y croeso. Yn ogystal rydym wedi bod yn ffodus i gael nifer o grantiau eleni, cafwyd £1,000 Haf o Hwyl gan Lywodraeth Cymru aeth i ariannu noson BBQ y llynedd a'n galluogi i ni brynu offer BBQ parhaol. Cafwyd £7,500 gan Gyngor Gwynedd tuag at gostau ein gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn. Rydym yn parhau i dderbyn £7,356 gan Lywodraeth Cymru am weithredu trwy'r Gymraeg. Eto eleni, diolchwn i Gyngor Sir Conwy sydd wedi rhoi £2,500 yn grant i ni. Rydym hefyd yn lwcus ofnadwy o fudiadau fel FUW a Grŵp Cynefin am eu parodrwydd i noddi cystadlaethau drwy gydol y flwyddyn.
Fel ydych chi'n gweld, mae sefyllfa ariannol y Sir yn sefydlog ar hyn o bryd ac rydym yn werthfawrogol tu hwnt am yr holl gefnogaeth ydyn ni wedi ei gael drwy gydol y flwyddyn. Hoffwn ddiolch yn arbennig eleni i deulu Pritchard, Nant Peris sydd wedi cyfrannu swm sylweddol i'r mudiad er cof annwyl am Meirion. Cytunwyd efo'r teulu i ddefnyddio'r arian i brynu bwrdd lapio gwlân i'r mudiad. Diolchwn i Dei Tai Hirion am greu'r bwrdd ar ein cyfer a gafodd ei ddefnyddio yn y Rali eleni.
Hoffwn dynnu eich sylw at ddau gynllun arall sydd yn helpu'r Sir yn ariannol. Os ydych chi neu rywun o'ch teulu yn gwerthu ŵyn i'r cwmni Dunbia, mae'r cwmni yn cyd-weithio gyda CFfI Cymru i sicrhau y caiff y mudiad fuddion ariannol os ydy eu haelodau yn gwerthu eu cynnyrch i Dunbia. Yn ail, os ydych chi'n berson sydd yn gwneud tipyn o siopa ar-lein, gallwch greu cyfrif ar wefan a elwir yn 'Easy Funding' sydd yn ymrwymo i roi canran o'ch gwariant chi yn syth i elusen, ac mae CFFI Eryri wedi cofrestru fel elusen ar y wefan hon. Croeso i chi gysylltu os ydych eisiau mwy o fanylion am hynny.
Hoffwn ddiolch i gwmni cyfrifydd Richard Williams a'i gwmni am eu parodrwydd i weinyddu'r cyflogau ar ein rhan eto eleni.
Diolchwn hefyd i aelodau Cynllun Ffrindiau'r mudiad am eu cefnogaeth eto eleni. Mae pob aelod yn buddsoddi un ai £100 yn flynyddol neu £8.50 pob mis gan dderbyn amrywiol fuddiannau yn sgîl eu haelodaeth. Un uchelgais sydd gen i fel Trysorydd eleni ydy hyrwyddo'r cynllun hwn a Chlwb 200 y Sir fwyfwy, ac ar hynny hoffwn groesawu unrhyw un o'r newydd ymuno â'r cynlluniau hyn.
Ers dechrau fy nghyfnod yn Drysorydd Sir nôl yn 2017, mae Glesni Lewis wedi bod wrth fy ochr yn is-drysorydd, ond bellach yn ymddeol o'r rôl eleni. Diolch am dy holl gefnogaeth ers blynyddoedd Gles, mi fydd chwith ar dy ôl yn y Pwyllgorau Cyllid a Staffio! Mae'r mudiad wedi bod yn lwcus iawn o gael ethol Catrin Roberts, Hafod y Porth o glwb Ddyffryn Madog yn is-drysorydd eleni, a dwi'n edrych ymlaen yn fawr i gyd-weithio efo hi.
Gai ddiolch hefyd i Gwen, sydd yn gorffen ei rôl fel Cadeirydd heno am gadw trefn arna i a phawb arall, mae dy ymroddiad diflino di wedi bod yn un i'w edmygu, ac ni allaf ddiolch digon i chdi am y gefnogaeth ydw i wedi'i gael. Dwi'n edrych ymlaen at flwyddyn arall o Ffermwyr Ifanc dan ofal Sioned, Caernarfon ein Cadeirydd ac Iwan, Dyffryn Ogwen ein Is-gadeirydd - mae'r mudiad yn sicr mewn dwylo saff.

| | | |
|---|---|---|
| | Gai hefyd estyn diolch i'r pwyllgor gwaith ac i Anwen ac aelodau'r is-bwyllgor Cyllid a Staffio am eu holl gymorth eto eleni. Mae eu gwaith di-flino nhw yn sicrhau parhad llewyrchus i'r mudiad.<br>Yn olaf, hoffwn ddiolch i swyddogion cyflogedig y Sir. I Elin, am ei gwaith tu hwnt o drefnus yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn Ffermwyr Ifanc oedd yn gwneud fy rôl i'n un hawdd. A diolch i Carwyn sydd wedi camu i'r trothwy fel Swyddog Cefnogi ym mis Ionawr tra bod Elin ar gyfnod mamolaeth. Mi fydd hi'n rhyfedd iawn heb y galwadau ffôn a'r panics ar ôl fis Hydref. Diolch am yr holl hwyl dros y misoedd diwethaf Carwyn, ac am yr *ego-boosts* ydw i wedi'u cael gen ti sydd wedi fy ngadael yn teimlo fel *wizz-kid* mewn excel. Paid â bod yn ddiarth!<br>Diolch yn fawr. | |
| **8.** | **ADRODDIAD SWYDDOG CEFNOGI'R MUDIAD**<br>Diolchodd Carwyn Edwards i bawb am fynychu'r pwyllgor. Eglurodd bod cychwyn y swydd hon yn newid byd iddo ond ei fod wedi mwynhau pob eiliad, yn arbennig y gwaith o drefnu'r Rali yn Llystyn Ganol. Pwysleisiodd na fyddai wedi gallu cwblhau gwaith llynedd heb help a chefnogaeth Gwen Thomas, Cadeirydd 2022/23. Diolchodd Carwyn hefyd i Elin Owen Jones, Trysorydd 2022/23 am ei chefnogaeth barod. Diolchodd Carwyn i'r aelodau am fod mor barod i gydweithio. Dymunodd yn dda i Elin Jones a fydd yn dychwelyd o'i chyfnod mamolaeth cyn y Nadolig | |
| **9.** | **ANERCHIAD Y LLYWYDD**<br>Agorodd Geraint Puw, Pen Mount ei anerchiad drwy fynegi ei bod wedi bod yn fraint cael bod yn lywydd CFfI Eryri, ac ni feddyliodd erioed y byddai'n cael y cynnig. Eglurodd bod y mudiad wedi bod yn rhan fawr o'i fywyd rhwng bod yn aelod o Glwb Dyffryn Madog ei hun flynyddoedd yn ôl, yna gweld ei blant yn ymuno â'r clwb. Dywedodd ei fod bellach yn arweinydd y clwb ac wrth ei fodd, a'i fod wedi gwirioni cael bod yn llywydd y flwyddyn yr oedd y clwb yn cynnal y rali. Nododd mai'r uchafbwyntiau iddo eleni oedd ennill y cystadlaethau tynnu rhaff ar ddiwrnod y rali, cyn mynd ymlaen i ddod yn fuddugol fel clwb ar ddiwedd y diwrnod. Diolchodd i Elin Jones a Carwyn Edwards am eu gwaith fel Swyddogion Cefnogi'r sir. Diolchodd i'r holl swyddogion sy'n gwirfoddoli ac yn rhoi gymaint o'u hamser, yn arbennig Gwen Thomas, Elin Owen Jones, Glesni Lewis ac Anwen Bumby. Pwysleisiodd na fyddai yna fudiad heb eu gwaith diflino. | |
| **10.** | **ADRODDIAD PWYLLGOR CYLLID A STAFFIO**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad canlynol gan Anwen Bumby, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Staffio 2022/23:<br><br>"Mae'n bleser gennyf gyflwyno i chi adroddiad o waith y Pwyllgor Cyllid a Staffio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Cyn cychwyn ar fy adroddiad hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Miriam Williams, cyn cadeirydd y pwyllgor, am ei gwaith yn arwain y pwyllgor a sicrhau fod y mudiad yn parhau yn sefydlog drwy gyfnod anodd cofid a newid personél.<br>Gyda gweithgareddau'r mudiad yn ôl i'r arfer canolbwyntiodd y Pwyllgor ar sicrhau fod sylfaen ariannol gadarn gan y mudiad a bod gweithdrefnau mewn lle i sicrhau fod y mudiad yn rhedeg mor effeithiol â phosib. Buddsoddwyd mewn offer swyddfa sydd yn caniatáu i'n swyddog cyswllt allu gweithio yn hybrid h.y. o adref neu yn y swyddfa. Fel yr ydych i gyd yn ymwybodol bu Elin ein Swyddog Cefnogi i ffwrdd ar gyfnod mamolaeth ac yn mwynhau cael magu Morus. Gallaf gadarnhau y bydd Elin yn ail gychwyn ar ei dyletswyddau ar Dachwedd y 6ed.<br>Mewn cyfnod ble mae nifer o fudiadau yn cael hi yn anodd recriwtio staff newydd, rydym fel mudiad wedi bod yn ffodus i allu penodi Carwyn Edwards yn Swyddog Cyswllt dros | |

| | | |
|---|---|---|
| | gyfnod mamolaeth Elin. Gan fod Elin yn dychwelyd ym mis Tachwedd bydd cyfnod cyflogedig Carwyn yn dod i ben ddechrau Tachwedd. Diolchwn i chdi Carwyn am dy waith a dymunwn yn dda i chdi gyda dy gynlluniau i'r dyfodol.<br>Hoffem gymryd y cyfle i ddiolch i'r Undebau amaethyddol a'r holl gwmnïau lleol sydd yn cefnogi'r mudiad yn ariannol. Rydym yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth a'ch haelioni. Bu'r Rali yn llwyddiant mawr o ran gweithgaredd ond hefyd yn ariannol, diolch i aelodau a chyfeillion y clwb am eu gwaith yn sicrhau fod y digwyddiad yn llwyddiannus ymhob ffordd.<br>Mae'r Pwyllgor wedi bod yn adolygu polisïau'r mudiad dros y misoedd diwethaf ac y rydych eisoes wedi dechrau eu mabwysiadu, a dyma fydd ffocws gwaith y Pwyllgor am y misoedd nesaf, tasg ddiflas ond angenrheidiol.<br>Cyn cloi, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i'm cyd aelodau ar y pwyllgor am eu cefnogaeth a hefyd yn arbennig i swyddogion sir am eu gwaith caled, rydym fel mudiad yn hynod lwcus o gael swyddogion cydwybodol a gweithgar, felly diolch Gwen, Sioned, Elin Goetra a Glesni am eich gwaith sydd wedi hwyluso fy ngwaith i fel cadeirydd y panel. 'Da ni fel mudiad yn hynod falch ohonoch.<br>Diolch am wrando a dymuniadau gorau i chi gyd a gobeithio y bydd clybiau<br>Eryri yn cael blwyddyn lwyddiannus. | |
| **11.** | **ADRODDIAD PWYLLGOR RALI** | |
| **12.** | **ADRODDIAD PWYLLGOR EISTEDDFOD** | |
| **13.** | **ADRODDIAD PWYLLGOR HYFFORDDIANT**<br>Cyflwynwyd adroddiad y Pwyllgor Hyfforddiant gan Gwen Thomas.<br>Dywedodd ei bod yn falch o ddweud bod y sir wedi cael trefn ar y Pwyllgor Hyfforddiant eleni. Nododd bod y sir wedi cynnig hyfforddiant codi wal, cymorth cyntaf a thynnu trelar i'r aelodau. Cadarnhaodd bod amryw wedi bod yn bresennol ac wedi cael budd o'r tri hyfforddiant. Cyhoeddodd y bydd y Pwyllgor yn gweithredu system geisiadau o hyn ymlaen. Eglurodd y bydd modd i aelodau gyflwyno cais i'r mudiad ad-dalu hyd at £500 am gwrs byr a fydd yn gwella eu cyflogadwyedd. Dywedodd eu bod yn y broses o lunio ffurflenni cais a meini prawf ar gyfer y system ar hyn o bryd a'u bod yn gobeithio eu cyflwyno ganol Tachwedd 2023. Nododd Gwen bod oddeutu £6000 ar ôl yn y gronfa hyfforddiant. | |
| **14.** | **ADRODDIADAU'R CLYBIAU**<br>**Caernarfon**<br>**Dyffryn Madog**<br>**Dyffryn Nantlle**<br>**Dyffryn Ogwen**<br>**Godre'r Eifl**<br>**Llangybi**<br>**Llanrwst**<br>**Rowen**<br>**Porthdinllaen**<br>**Y Rhiw**<br>**Ysbyty Ifan** | |
| **15.** | **ETHOL SWYDDOGION** | at |

| | | |
|---|---|---|
| | **Llywydd y Sir – Huw Thomas, Meillionydd, ardal CFfI Y Rhiw**<br>Cynigiodd CFfI Rhiw Huw Meillionydd i fod yn lywydd y mudiad ar gyfer y flwyddyn 2023/24. Pwysleision fod Huw wedi chwarae rhan greiddiol yng ngwaith Pwyllgor Rali Gwythrian 2022. Dywedon fod Huw yn gyn-aelod o Glwb y Rhiw ac yn rhan o bwyllgor Ras Aredig Sarn a'r cylch. Nodon fod Huw pob amser yn barod i helpu'r clwb neu unrhyw ddigwyddiad lleol. Eiliodd CFfI Godre'r Eifl gan nodi y byddai'n fraint ei gael yn lywydd y sir. Tynnon sylw at ei ymroddiad yntau a'i deulu i'r sir ers blynyddoedd, yn arbennig yn ystod cystadlaethau ffensio'r mudiad yn y Ras Aredig flynyddol.<br><br>**Is-lywydd y sir – Mari Hughes, ardal CFfI Rowen**<br>Cynigiodd CFfI Rowen Mari Hughes fel Is-lywydd y sir ar gyfer y flwyddyn 2023/24 oherwydd ei hymroddiad amhrisiadwy i'r clwb fel arweinydd sy'n annog aelodau ac yn sicrhau eu bod yn mwynhau. Eiliodd CFfI Llanrwst gan nodi bod Mari Hughes yn arweinydd hynod weithgar ac yn fwy na theilwng.<br><br>**Cadeirydd y sir – Sioned Wyn Jones, CFfI Caernarfon**<br>Cynigiodd CFfI Caernarfon Sioned Wyn Jones fel Cadeirydd y sir ar gyfer y flwyddyn 2023/24 oherwydd ei phrofiad fel Is-gadeirydd y sir a'i hymroddiad i'r mudiad ers blynyddoedd. Eiliodd CFfI Dyffryn Nantlle gan nodi hefyd bod Sioned yn aelod brwd a gweithgar o'r mudiad ers blynyddoedd.<br><br>**Is-gadeirydd y sir – Iwan Harper, CFfI Dyffryn Ogwen**<br>Cynigiodd CFfI Dyffryn Ogwen Iwan Harper fel Is-gadeirydd y sir ar gyfer y flwyddyn 2023/24gan ei fod yn aelod sydd wastad yn fodlon helpu'r sir ers blynyddoedd lawer. Eiliodd CFfI Llanrwst gan nodi fod Iwan y sir yn ffodus o gael Iwan yn aelod ers blynyddoedd.<br><br>**Trysorydd ac Is-drysorydd - Elin Jones Owen, CFfI Godre'r Eifl (Trysorydd) a Catrin Roberts, CFfI Dyffryn Madog (Is-drysorydd)**<br>Cynigiodd CFfI Godre'r Eifl Elin Jones Owen fel Trysorydd y sir ar gyfer y flwyddyn 2023/24 hyd nes y pennir rhywun newydd i'r swydd oherwydd ei phrofiad gwerthfawr yn y swydd. Cynigiodd CFfI Godre'r Eifl Catrin Roberts, Dyffryn Madog fel Is-drysorydd y sir ar gyfer y flwyddyn 2023/24 oherwydd ei phrofiad o fod yn drysorydd CFfI Dyffryn Madog a'r sgiliau perthnasol sydd ganddi yn rhinwedd ei swydd. Eiliodd CFfI Dyffryn Nantlle y ddwy gan nodi y bydd yn werthfawr i Catrin gael cysgodi Elin gyda'r gobaith y bydd hi'n dymuno ymgymryd â'r swydd Trysorydd yn y dyfodol. | |
| **16.** | **CADARNHAU YMDDIRIEDOLWYR Y MUDIAD**<br>Cadarnhaodd Sioned Wyn Jones y canlynol fel ymddiriedolwyr y mudiad<br><br>Caernarfon - Sioned Wyn Jones a Non Griffith<br>Dyffryn Madog – Nel Dafydd ac Efa Jones<br>Dyffryn Ogwen – Iwan Harper a Sallie Roberts<br>Godre'r Eifl – Gwenlli Thomas a Rhodri Jones<br>Llangybi – Siwan Prys Owen a Robin Wyn Pari<br>Llanrwst – Arthur Emyr Williams a Dylan Roberts<br>Porthdinllaen – Beca a Tomos Dobson<br>Y Rhiw – Lora Thomas a Sera Griffiths | |

| | | |
|---|---|---|
| | Rowen – Elliw Newsham a Heledd Williams<br>Ysbyty Ifan – Elenid a Marged Alun<br><br>**Cadarnhaodd Iwan Harper y swyddogion canlynol**<br>Llywydd – Huw Thomas<br>Is-lywydd – Mari Hughes<br>Cadeirydd – Sioned Wyn Jones<br>Is-gadeirydd - Iwan Harper<br>Cadeirydd Pwyllgor Hyfforddiant – Gwen Thomas<br>Trysorydd – Elin Owen Jones<br>Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Staffio – Anwen Bumby<br>Cadeirydd neu Gadeiryddion y Pwyllgor Rali – heb gyfarfod | |
| **17.** | **TAL AELODAETH**<br>Cynigiodd Elin Owen Jones bod y dal aelodaeth yn parhau yn £25 y pen eto eleni, cyn belled a bod lefi Cymru yn cael ei gymeradwyo yn £17.92 yn ystod AGM CFfI Cymru wythnos nesaf. Nododd Elin Owen Jones bod sefyllfa ariannol y sir yn sefydlog a chynigiodd felly nad oes angen codi'r pris tra bo costau byw mor uchel.<br><br>Eiliodd Glesni Lewis. | |
| **18.** | **CYFLWYNO TLYSAU**<br>**Cyflwynwyd y tarianau canlynol i'r clybiau isod:**<br><br>**Tarian Goffa Llinos Owen Jones -** Llangybi<br>**Cwpan Barhaol W. J Owen -** Llangybi<br>**Tlws Hafod y Llan –** Dyffryn Madog<br>**Tlws Hwsom Iau -** Elin Morgan, Caernarfon<br>**Tlws stocmon y flwyddyn —** Caron Hughes, Rowen<br>**Cwpan barhaol Bob Parry i'r clwb buddugol yn y rali -** Caernarfon**.**<br>**Tlws y flwyddyn i'r clwb sydd wedi cynrychioli eryri fwyaf yng nghystadlaeuthau Cymru –** Dyffryn Madog<br>**Tarian Henblas –** Dyffryn Ogwen<br>**Tarian Cathrine Rhian –** Dyffryn Madog | |
| **19.** | **CYHOEDDI AELOD HŶN AC AELOD IAU'R FLWYDDYN 2023/24**<br>Croeawyd Rhys Richards, Cadeirydd CFfI Cymru i draddodi'r feirniadaeth. Diolchodd i'r holl aelodau a gystadlodd yn y ddwy gystadleuaeth ac am baratoi mor drylwyr. Nododd bod y ceisiadau oll yn dangos gwerth y profiad a'r sgiliau sydd gan yr aelodau i'r sir. Pwysleisiodd y budd sydd i gystadlu yn y gystadleuaeth hon ac anogodd y rhai na fu'n fuddugol i ymgeisio eto flwyddyn nesaf.<br>Cyhoeddodd yr enillwyr canlynol:<br><br>Aelod Iau y flwyddyn 2023/24 - Lora Jên, CFfI Llangybi<br>Aelod Hŷn y flwyddyn 2023/24 – Rhodri Jones, CFfI Godre'r Eifl<br><br>Llongyfarchwyd y ddau ohonynt ar eu llwyddiant. | |
| **20.** | **UNRHYW FATER ARALL**<br>Ni godwyd unrhyw fater arall**.** | |
| **21.** | **DIOLCHIADAU**<br>Diolchodd Sioned Wyn Jones i'r Newborough Arms am westesio'r noson. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Diolchodd i aelodau’r sir am y gwaith y maent wedi’i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf.<br>Tynnodd sylw at arolwg a wnaed gan CFfI Cymru a oedd yn dangos bod aelodau yn rhoi 4 awr yr wythnos yr un i’r mudiad ar gyfartaledd.<br>Diolchodd i swyddogion sirol 2022/23 am eu cefnogaeth ddiflino.<br>Diolchodd i Geraint Puw am ei waith caled fel llywydd.<br>Diolchodd i Elin Owen Jones a Glesni Lewis am eu gwaith trylwyr fel Trysoryddion y sir<br>Diolchodd i Elin Jones a Carwyn Edwards am eu gwaith fel Swyddogion Cefnogi'r sir.<br>Diolchodd yn olaf i Gwen Thomas, Cadeirydd 2022/23 am fynd y filltir ychwanegol pob amser ac am sicrhau bod y clwb yn y sefyllfa lewyrchus y mae ynddi ar hyn o bryd.<br>Nododd ei bod yn gadael esgidiau mawr iddi geisio eu llenwi fel Cadeirydd 2023/24.<br>Dymunodd Sioned yn dda i’r holl glybiau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod a phwysleisiodd ei bod wastad ar gael i helpu. | |

**FFEDERASIWN FFERMWYR IFANC ERYRI**

England & Wales - Charity number 1167065

# Accounts

**COFNODION PWYLLGOR BLYNYDDOL CFFI ERYRI**

**Dyddiad: 30 Medi 2022**

**Amser: 19:00**

**Lleoliad: Newborough Arms, Bontnewydd**

| | | PG |
|---|---|---|
| 1. | **YMDDIHEURIADAU:**<br>Elin Jones (Trysorydd), Anwen Bumby, Iwan Harper. | |
| 2. | **PRESENNOL**:<br>Meinir Jones (Cadeirydd y Sir), Gwen Thomas (Is-gadeirydd y Sir), Geraint Roberts (Llywydd y Sir), Elin Jones (Swyddog Cefnogi), Miriam Williams, Non Griffith, Elin Morgan, Alaw Morgan, Gethin Wynne, Lois Elan Jones, Elen Williams, Lora Jen Pritchard, Geraint Puw, Marian Puw, Manon Puw, Huw Arfon, Dylan Roberts, Cai Williams, Wil Seth, Lois Glyn Jones, Myfanwy Harper, Sallie Roberts, Gethin Harper, Elenid Alun, Ffion Ellis, Erin Evans, Mairwen Davies, Glyn Owen, Hafwen Owen, Sion Arfon, Menna Williams, Mererid Owen, Sioned Wyn Jones, Mari Jones, Arthur Williams, Gwyn Jones, Glesni Lewis, Robat Thomas, Huw Thomas, Elliw Owen. | |
| 3. | **DERBYN COFNODION**:<br>Derbyn Cofnodion – 24.09.2021:<br>Derbyniwyd y cofnodion yn gywir gan Non ac eiliodd Miriam. | |
| 4. | **MATERION YN CODI**:<br>Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion. | |
| 5. | **GOHEBIAETH**<br>Ni ddaeth gohebiaeth i law. | |
| 6. | **ADRODDIAD CADEIRYDD Y MUDIAD – MEINIR OWEN - LLANGYBI**<br>Lle mae dechrau 'dwch? Wel yn wir i chi, dyna beth oedd blwyddyn!!<br><br>Yn dilyn blwyddyn a hanner o gyfarfodydd Zoom, roedd yn nefoedd ar y Ddaear cael cyfarfod wyneb yn wyneb unwaith eto am y tro cyntaf yn ystod ein Pwyllgor Blynyddol nôl ym mis Medi llynedd. Braint ac anrhydedd oedd cael fy ethol fel Cadeirydd y Mudiad a hynny yn Sied tŷ ni! Diolch yn fawr am y cyfle. Roeddwn yn gwybod fod gennym fel Swyddogion her a hanner o'n blaenau gan nad oedd Trefnydd bellach wrth y llyw, ac ar y nodyn yna, hoffwn ddiolch o galon i Eleri am ei holl waith di-flino i'r Mudiad dros y blynyddoedd a hefyd i'r ddiweddar annwyl Elin Cae Hetar am ei chefnogaeth hithau yn y Swyddfa.<br><br>Fodd bynnag, os na chlywsoch chi am 'Dream Team' o'r blaen, wel dyma | |

‘Dream Team’ i chi!!! ‘Dw i wedi hen golli cyfrif ar y negeseuon roeddem fel Swyddogion yn eu gyrru yn ôl ac ymlaen yn trio cadw’r Mudiad i fynd tra nad oedd aelod o staff wrth y llyw. Ni allaf ddiolch digon i’r Swyddogion am eu gwaith **arbennig** ac am ddioddef fy holl swnian yn ystod y flwyddyn!

Roedd yn fendith gweld y Clybiau yn ail-ddechrau cyfarfod unwaith eto a phawb yn cymdeithasu drwy ddilyn rheolau’r ‘Normal Newydd’. Rhaid canmol yr Aelodau yn fawr am barchu’r rheolau hyn a chadw atynt. Pleser o’r mwyaf oedd cael mynd o amgylch rhai o’r clybiau yn eu tro i gynnal gemau gwirion. Pwy fuasai’n meddwl fod cymaint o hwyl i gael gyda phegs, peli, pâr o deits a photeli dŵr?? Diolch yn fawr i’r Clybiau am y croeso.

Roedd hi’n fis Hydref mewn dim ac roeddem wedi bod wrthi fel lladd nadroedd yn trefnu a pharatoi ar gyfer yr Eisteddfod sef un o uchafbwyntiau’r flwyddyn i mi. Roedd cyffro mawr y tro hwn gan mai dyma’r cystadlu cyntaf i gael ei gynnal yn dilyn y pandemig. Fodd bynnag, does dim geiriau i ddisgrifio y siom a gefais noswyl cyn yr Eisteddfod pan gefais brawf Cofid positif!! Dyna beth oedd siom a hanner!!! Ond fe aeth yr Eisteddfod ymlaen fel watsh diolch i’r holl Swyddogion a phawb a gamodd i’r bwlch funud olaf. Gwelais fwy ar yr Eisteddfod eleni dros Zoom nad wyf erioed wedi ei wneud o’r blaen! Dyna beth oedd gwledd a hanner o gystadlu safonnol tra wedi lapio fel nionyn mewn plancedi ar y soffa!

Ymlaen â ni wedyn at ddiwrnod y Ffair Aeaf ble cawsom groeso cynnes yn Nhŷ Newydd, Llandegai. Roedd yn hyfryd gweld aelodau gwahanol i griw yr Eisteddfod yn cystadlu y tro hwn a phawb yn frwdfrydig.

O’r diwedd, daeth eto haul ar fryn i Eryri ddiwedd fis Tachwedd pan benodwyd Swyddog Cefnogi newydd ar gyfer y Mudiad sef Elin Jones (Elin Ty’n Simdde i’r rhai ohonoch sydd yn ei hadnabod). Braf iawn oedd croesawu Elin atom a throsglwyddo’r awenau trefnu drosodd.
Bu mis Rhagfyr yn fis prysur iawn yn ein plith ble cafwyd Parti Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon, noson codi ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl gan DPJ a noson Garolau yn Sied Bryn Mawr. Distaw iawn fu ein hanes ym mis Ionawr ond cafodd y beirniaid wledd a hanner yn ystod ein noson Siarad Cyhoeddus yn Ysgol Syr Hugh Owen yn Chwefror. Roedd cystadlu brwd ac roedd yn hyfryd gweld cymaint yn elwa ar sgiliau oes.

Cyn i ni droi, roedd hi’n fis Mai, sy’n golygu ond un peth – RALI!! Diolch o galon i deulu Gwythrian am y croeso cynnes a hynny ddwy flynedd yn ddiweddarach na’r dyddiad gwreiddiol. Yn wir i chi, roedd yr holl aros yn werth aros amdano gan ei fod yn chwip o ddiwrnod. Roedd gwylio’r aelodau yn mwynhau pob eiliad yn bleser pur.

Braf oedd cael cyfle i fynd o amgylch gweddill y clybiau nad oeddwn wedi ymweld â nhw yn ystod eu Pwyllgorau Blynyddol. Roedd yn wych gweld brwdfrydedd aelodau at y flwyddyn newydd ac yn wir i chi mae’r Mudiad

| | | |
|---|---|---|
| | mewn dwylo diogel.<br><br>I ddiweddu fy mlwyddyn fel Cadeirydd, fe es ati i gynnal Taith Feics Noddedig a Gig gan y Welsh Whisperer. Diolch o galon i bawb â ymunodd ac i bawb am eu cefnogaeth. Llwyddom i gasglu dros £1,300 ar gyfer elusennau hynod bwysig sef DPJ, Mind Cymru, Meddwl.org a Samariaid Cymru.<br><br>Do wir, fe fu'n flwyddyn wahanol iawn yma yn Eryri ond rwy'n grediniol fod y Mudiad yn dal yr un mor gryf. Yn sicr, mae seibiant o flwyddyn a hanner wedi dangos i ni pa mor bwysig ydy mudiadau fel y Ffermwyr Ifanc. Mudiad sydd yn cynnig mwy o gyfleoedd i aelodau nag unrhyw fudiad arall. Mudiad sydd yn magu hyder unigolion. Mudiad sydd yn meithrin doniau. Mudiad amhrisiadwy.<br><br>Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch o galon i holl swyddogion y Clybiau am fod yn amyneddgar dros y flwyddyn ddiwethaf yn enwedig yn ystod y cyfnod ble nad oedd gennym Swyddog Sirol. Yn sicr, roedd pob un ohonoch wedi gwneud ein swyddi ni yn llawer haws. Diolch enfawr i'r Swyddogion Sirol ac i Elin am eu holl waith di-flino.<br><br>Fe ddwedais ar y dechrau mai braint ac anrhydedd oedd cael fy ethol yn Gadeirydd y Mudiad yn Sied Tŷ Ni, ond braint ac anrhydedd arall ydy trosglwyddo'r awenau eleni i un o fy ffrindiau gorau sef Gwen. Yn sicr, bydd y Mudiad yn mynd o nerth i nerth yn nwylo medrus Gwen. Pob dymuniad da i ti a'r tîm a fydd wrth y llyw flwyddyn nesaf. | |
| **7.** | **ADRODDID ARIANNOL – GLESNI LEWIS (ar ran Elin Jones)**<br><br>Dwi'n ymddiheuro'n ofnadwy na fedra i fod yno heno.  Ar y 30 o Fehefin eleni, dyma'r balansau oedd yng nghyfrifon banc y ffederasiwn:<br><br>- Cyfrif Cyfredol Natwest £4,314.22<br>- Cyfrif Clwb 200 Natwest £1,352.00<br>- Cyfrif Cyfredol HSBC £37,167.51<br>- Cyfrif Cadw HSBC £63,100.77<br>- Cyfrif Tripiau £646.30<br>- Cyfrif Hyfforddiant £6,353.49<br>-<br>Ni aeth arian i mewn nac allan o gyfrif Cadw na Thripiau Natwest eleni a felly roedd eu balansau yn £0.00 a gwerth y ffederasiwn yn yn £112,934.29 ar y 30 o Fehefin, 2022.  £86,237.70 oedd gwerth y ffederasiwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol blaenorol.  Mae'r cynnydd mewn gwerth yn deillio o ddau brif beth.  Y cyntaf gan i ni fedru cynnal Rali am y tro cyntaf ers 2019, ac wedi creu cryn elw o'r digwyddiad.  Yn ail,  nid ydym wedi derbyn anfoneb gan CFfI Cymru am Aelodaeth eto, ond rydym wedi anfonebu clybiau'r Sir amdanynt sydd yn golygu fod gennym oddeutu £9,000 yn barod i fynd at yr anfoneb hwn. Yn dilyn ambell flwyddyn anodd i bawb rydym yn falch fod y ffederasiwn yn ffynnu yn ariannol.  Mae hyn wedi bod yn bosib oherwydd | |

rhoddion gan Gynghorau Cymuned yn ogystal â haelioni sefydliadau megis yr NFU a'r FUW, a rydym yn werthfawrogol tu hwnt o hyn. Hoffwn ddiolch yn arbennig eleni i deulu Bodlondeb sydd wedi cyfrannu swm sylweddol i'r mudiad er cof am Mr Wyn Griffith, Bodlondeb.

Eto eleni, diolchwn i Gyngor Sir Conwy sydd wedi rhoi £2,500 yn grant i ni.

Hoffwn ddiolch i Geraint Roberts, Tyddyn Wilym sef Llywydd ein Sir. Bu iddo greu ymgyrch i godi arian i Apêl Wcraen yn enw'r Sir drwy werthu ei stoc ym Marchnad Llanrwst. Trwy ei haelioni ef a phawb arall wnaeth gyfrannu i'r achos, llwyddwyd i godi dros £1,500 i'r ymgyrch. Diolch yn fawr iawn iddo.

Diolchwn hefyd i aelodau Cynllun Ffrindiau'r mudiad am eu haelioni eto eleni. Mae pob aelod yn buddsoddi unai £100 yn flynyddol neu £8.50 pob mis gan dderbyn amrywiol fuddiannau yn sgîl eu haelodaeth. Mae croeso i unrhyw un o'r newydd ymuno â'r cynllun neu ymuno â Chlwb 200 y Sir ble gellir ennill symiau ariannol drwy gydol y flwyddyn.

Hoffwn dynnu eich sylw at ddau gynllun arall sydd yn helpu'r Sir yn ariannol. Os ydych chi neu rhywun o'ch teulu yn gwerthu wyn i'r cwmni Dunbia, mae'r cwmni yn cyd-weithio gyda CFFI Cymru i sicrhau y caiff y mudiad fuddion ariannol os ydy eu haelodau yn gwerthu eu cynnyrch i Dunbia. Croeso i chi gysylltu os ydych eisiau mwy o fanylion am hynny. Yn ail, os ydych chi'n berson sydd yn gwneud tipyn o siopa ar-lein, gallwch greu cyfrif ar wefan a elwir yn 'Easy Funding' sydd yn ymrwymo i roi canran o'ch gwariant chi yn syth i elusen, ac mae CFFI Eryri wedi cofrestru fel elusen ar y wefan hon. Rydym eisoes wedi gwneud ychydig o arian drwy'r cynlluniau bychain hyn a rydym yn ddiolchgar dros ben.

Rydym yn parhau i fod yn gyfrifol am ein cyflogres ein hunain ac hoffwn ddiolch i gwmni cyfrifydd Richard Williams a'i gwmni am eu parodrwydd i weinyddu'r cyflogau ar ein rhan eto eleni.

Hoffwn roi sylw i'r gefnogaeth ydw i'n ei dderbyn drwy gydol y flwyddyn. Gai ddiolch i brif swyddogion y Sir sydd wedi gweithio yn aruthrol o galed dros y blynyddoedd diweddar i sichrau parhad i'r mudiad. Gai hefyd estyn diolch i'r pwyllgor gwaith a'r is-bwyllgor Cyllid a Staffio am eu holl gymorth eto eleni. Mae eu gwaith di-flino nhw yn sicrhau parhad llewyrchus i'r mudiad.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Elin ein Swyddog Cefnogi sydd wedi bod yn gymorth mawr i mi eleni a gwneud fy swydd i fel Trysorydd yn un hawdd.

Diolch yn fawr i bawb, Elin.

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **ADRODDIAD Y SWYDDOG CEFNOGI – ELIN JONES**<br>Mae amser wedi flio ers i mi gychwyn yn y swydd nol yn niwedd Tachwedd flwyddyn dwytha. Dwi wir wedi mwynhau’r dasg o gefnogi i drefnu digwyddiadau’r Mudiad hyd yma, ac er fy mod wedi bod yn aelod yn Glwb Y Rhiw pan yn fengach, ond heb sylweddoli rhywsut faint sydd yn mynd ymlaen o fewn y mudiad.<br><br>Mae hi’n wych gweld y profiadau mae’r aelodau yn ei gael, ar brwdfrydedd sydd ganddynt wrth gymryd rhan. Mae hynny yn dod a pleser mawr i mi wrth neud y gwaith, a dwi’n mwynhau fy hun yn iawn hyd yma.<br><br>Dwi’n gobeithio fod y mudiad wedi datblygu ychydig ymhellach ers mi gychwyn, wrth i ni drio symyd y rhan fwyaf o bethau ar lein o ran gwaith papur ayyb. Y gobaith yw fod y broses o gysylltu hefo clybiau a’r swyddfa yn haws i bawb, er dwi’n gwbod bod chi gyd sydd ar y grwp WhatsApp swyddogion isio mi gau ngheg weithiau a stopio gyrru gymaint o links!!<br><br>Ond gan fod technoleg mor wych dyddiau yma, dwi’n gobeithio ei fodo’n gweithio i bawb.<br><br>Rhaid i mi ddiolch i Meinir a Gwen, coeliwch fi mae grwp WhatApp y dair ohonom ni yn waeth, lot gwaeth! Fyswn i heb lwyddo yn y swydd hyd yma hebddyn nhw, mae na gymaint mwy na dachi feddwl i’w ddysgu a dod i’w ddallt o fewn y swydd. Diolch genod!<br>Diolch hefyd i weddill swyddogion y mudiad sydd wedi bod yna os oes sgini gwestiwn, ac ambell i aelod hefyd sydd wedi helpu fi, da dachi gyd i feddwl fod pawb yn neud y gwaith yn wirfoddol, mae eich ymroddiad chi yn anhygoel!!<br><br>Nai ddim mynd ymlaen ac adrodd am bob digwyddiad sydd wedi bod ers mi gychwyn, ac boddi chi mewn ffigyrau ynglyn a’r sir ond braf ydi deud fod niferoedd aelodaeth y sir wedi codi rhyw fymryn ers y flwyddyn 2019 (sef y flwyddyn cyn cofid hitio ni).<br><br>Yn amlwg un o’r uchafbwyntiau’r flwyddyn oedd y Rali, mi oeddi’n ddiwrnod gwych draw yn Gwythrian a diolch i chi gyd am y gefnogaeth wrth drefnu, cystadlu neu fynychu, fysai heb fod yn lwyddiant heb yr holl bobl wnaeth droi fyny i fwynhau, ac mi oeddi’n team effort go iawn o ran y trefnu a cynnal!<br><br>Mi oeddi hefyd yn braf gweld brwdfrydedd yr aelodau aeth mlaen i gystadlu yn y Sioe Frenhinol lawr yn Llanelwedd nol yn mis Gorffenaf yn y tywydd poeth bendigedig ‘na.<br>Felly edrych ymlaen am yr Eisteddfod sydd nesa, a gweddill y digwyddiadau sydd wedi eu trefnu ar gyfer yr aelodau.<br><br>Ac felly ar y nodyn yna, diolch eto i chi gyd am y croeso cynnes dwi wedi dderbyn gan bawb sydd yn ymwneud a’r mudiad, mai wedi bod yn braf dod i nabod chi gyd, a mae gini dal waith dod i nabod llawer un eto. Diolch. | |
| **9.** | **ANERCHIAD Y LLYWYDD – MR GERAINT ROBERTS, LLANRWST** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wel dwi'n siŵr eich bod yn disgwyl chwip o araith gan fy mod wedi cael digon o amser i baratoi ond eich siomi wnâi ma gennai ofn !<br><br>Mae'r mudiad wedi bod drwy newidiadau mawr ac mae wedi bod yn gyfnod reit heriol I bob clwb trio dod nol ir normal ar ôl y pandemic.<br><br>Cafwyd Eisteddfod llwyddiannus ym Mhorthmadog a diwrnod beirniadu stoc yn y Ffair Aeaf lle ddaeth na griw da I gystadlu – braf gweld pethau yn dechrau dod yn nol I normal eto. Cafwyd Rali llwyddiannus iawn a chroeso arbennig gan deulu Gwythrian a lleoliad gwerth chweil gyda pawb wedi mwynhau yn fawr.<br><br>Diolch am yr anrhydedd am gael bod yn Is Lywydd a Llywydd hira mewn hanes y mudiad gan fy mod wedi cael fy ethol ers tair mlynedd yn nol a gobeithio na fydd rhaid I neb guro'r record byth drwy bandemic arall.<br><br>Pob lwc ir mudiad a chofiwch fwynhau 'r cystadlu a'r cymdeithasu -wnewch chi byth ddifaru'r profiadau y cewch chi drwy fudiad y Ffermwyr Ifanc | |
| 10. | **ADRODDIADAU PWYLLGORAU**<br>**a. Cyllid a Staffio: Miriam Williams, Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Staffio**<br>Dyma gyflwyno fy adroddiad fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Staffio ar gyfer y flwyddyn a fu. Gwerth sôn yn fras beth yn union ydi dyletswyddau'r pwyllgor hwn, ar gyfer yr rheiny ohonoch sydd o bosib ddim mor gyfarwydd â hynny ag o. Yn syml, mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys Prif Swyddogion y mudiad ac aelodau ymgynghorol, sef unigolion nad sy'n aelodau o'r mudiad ond sydd fel arfer â chyswllt ag o, megis bod yn gyn-aelod neu yn riant i aelod ac ati. Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cwrdd tua phedair gwaith y flwyddyn, neu yn ôl y galw. Ein gwaith ydi trafod materion ariannol, strategol a staffio y sir.<br><br>Felly, ar y nodyn hynny, gwerth fyddai sôn beth sydd wedi bod yn digwydd y tu ôl i'r lleni yn ystod y flwyddyn a fu.<br><br>**Recriwtio Aelod o Staff**<br>Yn yr AGM diwethaf, fe soniais ein bod ni'n cychwyn hysbysebu am yr eildro am aelod o staff – mi fasa Miriam mis Medi 2021 wedi bod yn falch iawn o wybod bod Elin Jones ar y ffordd fel Swyddog Cefnogi. Fe benodwyd Elin ym mis Tachwedd y llynedd ac mae hi wedi setlo mewn i'r rôl yn gyflym tu hwnt gan wneud byd o les i waith y sir. Diolch i ti Elin am dy waith caled, a dymuniadau gorau i ti am y flwyddyn sydd i ddod – edrychwn ymlaen at dy gael di'n nol hefo ni yn fuan. Byddwn yn mynd ati i recriwtio am rywun i weithio cyfnod mamolaeth Elin yn ystod y dyddiau nesaf – mi fyddai'r pwyllgor yn gwerthfawrogi cymorth pawb i rannu'r hysbyseb i bedwar ban byd. | |

**Aelodau Ymgynghorol**
Braf oedd croesawu aelodau ymgynghorol newydd i eistedd ar y pwyllgor eleni. Rydym wedi croesawu Sara Lloyd Evans fel Cyfreithwraig Ymgynghorol, ac Emyr Williams ac Elliw Owen fel Aelodau Ymgynghorol. Bydd tymor Glyn Owen a Richard Parry yn dod i ben yn y cyfarfod nesaf, a diolch o galon iddynt am eu gwaith.

**Systemau**
Rydym wedi gwneud llawer o waith ar ddatblygu a mireinio systemau Adnoddau Dynol dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym bellach yn defnyddio system PeopleHR er mwyn tracio a chofnodi oriau / gwyliau / treuliau. Mae'n gwneud bywyd yn llawer haws i bawb.
Mae croeso i unrhyw un wneud cais i weld cofnodion y Pwyllgor Cyllid a Staffio pe bai gennych ddiddordeb yn ein gwaith – cysylltwch â mi, neu holwch Elin am fy nghyfeiriad ebost.

Diolch i'r holl aelodau am eu cefnogaeth eleni, a diolch i Myfanwy Harper fy rhafglaenydd am ei gwaith hithau, ac i Anwen Bumby, yr Is Gadeirydd am ei chefnogaeth a'i gwaith trylwyr bob amser.

Diolch i Elin Goetre a Glesni am ofalu am gyfrifon ariannol y Mudiad mor drylwyr a phroffesiynol – mae'n waith cymleth ac yn aml yn ddi-ddiolch, felly diolch i chi'ch dwy.
Diolch i Gwen am fod yn Is Gadeirydd cefnogol ac ymarferol i dy Gadeirydd a'th gyd-swyddogion, a phob lwc i ti am y flwyddyn sydd i ddod. Dyna felly adael un bach ar ôl – Meinir. Diolch o galon i ti Meinir am fod yn Gadeirydd mor weithgar ar y sir ac am dy holl ymroddiad dros y flwyddyn a mwy diwethaf. Ches di'n sicr ddim amser hawdd fel Cadeirydd, ond mi wnes di sicrhau bod y mudiad yn mynd o nerth i nerth yn ystod dy gyfnod ac mae'n diolch yn fawr i ti am hynny. Mwynha dy ymddeoliad!

**b. Rali: Robat Thomas, Cadeirydd Pwyllgor y Rali**
Wedi hir ymaros dros ddwy flynedd, fe gawsom o'r diwedd gynnal Rali Eryri yn Gwythrian ar yr 28ain o Fai. Diolch yn fawr iawn i Deulu Gwythrian a m gael cynnal y rali ac am eu cefnogaeth barhaus. Wedi misoedd o baratoi, braf iawn oedd gweld y cystadlu a'r cyfeillgarwch yn nôl rhwng aelodau'r Mudiad arbennig hwn. Yn sicr, mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi amlygu gwerth y mudiad i ni yng nghefn gwlad Eryri. Hoffwn fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i Elin Tŷ Simdde ac i Meinir a Gwen a phawb yn y Mudiad am eu gwaith caled iawn yn ein cefnogi i drefnu diwrnod mor llwyddiannus.

Roedd y gefnogaeth a dderbyniwyd yn anhygoel. Nol yn 2019 oedd hi pan gynhaliwyd y cyfarfod gwreiddiol i drefnu Rali 2020 ac roedd Neuadd Ysgol Botwnnog yn orlawn. Bu i'r gefnogaeth yma barhau ar hyd y daith gyda chyn aelodau, rheini a chwmnïau lleol yn rhoi oriau o'r hamser i'n cefnogi ar y trefnu ac yna stiwardio a'n cefnogi yn y caffi drwy'r dydd. Rydym wirionedd yn gwerthfawrogi.

| | | |
|---|---|---|
| | Y Faenol 1958 – dyna'r tro diwethaf i Glwb y Rhiw ennill y Rali! 64 mlynedd yn ddiweddarach, braf iawn ydi dweud y daeth buddugoliaeth eto!<br><br>Pob dymuniad da i Glwb Dyffryn Madog ar y trefnu. Dwi'n siŵr y bydd yn Rali lwyddiannus iawn.<br><br>**c. Eisteddfod: Dylan Roberts, Llanrwst ar ran Rhodri Sion, Cadeirydd y Pwyllgor**<br>Wedi saib o ddwy flynedd heb Eisteddfod, braf oedd cael cynnal un y llynedd. Roedd pethau'n parhau i fod yn ansicr o safbwynt cyfyngiadau, gyda nifer yr achosion Covid ar gynnydd, ac roedd hyn ychwanegu at y gwaith. Er hynny, pan ddaeth enwau'r cystadleuwyr i law, calonogol iawn oedd gweld cymaint o frwdfrydedd ymysg yr aelodau, a da oedd gweld cymaint o gyfeillion y mudiad yn dod i'n cefnogi ar y diwrnod yn y gynulleidfa.<br><br>Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch i bawb fu'n gweithio mor galed i ni allu cynnal yr Eisteddfod y llynedd. Nid hawdd oedd gwneud hynny dan yr amgylchiadau ar y pryd, felly diolch yn fawr i bob un ohonoch. Dw i'n siŵr bod Elin yn edrych ymlaen at ei 'Steddfod gyntaf yn ei swydd, a phob lwc i bawb ar y cystadlu eto eleni.<br><br>**ch. Hyfforddiant: Gwen Thomas. Cadeirydd Pwyllgor Hyfforddiant**<br>Nodwyd bod y Pwyllgor yn bwriadu mynd ati i drefnu cyrsiau codi wal sych, cymorth cyntaf a thynnu trelar er mwyn cwrdd â gofynion Magnox gan gyfrannu 50% tuag at gost pob aelod ac yna symud ymlaen i ddatblygu system ble mae aelodau yn cwblhau ffurflen gais ar gyfer derbyn 50% o gyfraniad tuag at gwrs byr sydd am eu cynorthwyo i gael swydd. | |
| **11.** | **ADRODDIADAU'R CLYBIAU**<br>• **Sioned Wyn Jones ar ran CFFI Caernarfon.**<br>Dilyn seibiant (a hanner!) oherwydd y pandemig, braf ofnadwy oedd gweld aelodau hen a newydd yn dychwelyd i'r clwb ym mis Medi, a phawb yn awyddus am y flwyddyn o'i blaen. Yn unol â'r traddodiad, Helfa Drysor oedd ein noson gyntaf yn ôl fel clwb. Roedd gwaith crafu pen i'r aelodau wrth iddynt gael ei yrru o amgylch cwrs gosodwyd gan y cadeiryddion. Roedd y noson hwn yn un noson ddiddorol ym musg nifer o nosweithiau eraill a threfnwyd gan swyddogion y clwb, gyda nosweithiau yn amrywio o noson mewn Escape Room yn Llandudno i noson ymweliad fferm. Yn sicr fe wnaeth y swyddogion yn siwr fod rhywbeth at ddant pawb yn rhaglen y clwb eleni.<br><br>Yn sydyn iawn ar ôl cychwyn yn ddoth y Ffair Aeaf, a braf oedd gweld gwaith caled yr aelodau yn talu ar ei ganfed wrth i'r clwb llwyddo i ddod yn y safle 1af ar ddiwedd y dydd. Ar ol y digwyddiad sirol, aeth sawl aelod ymlaen i gystadlu'n genedlaethol yn Ffair Aeaf y Sioe Frenhinol, a phob un yn gneud yn dda iawn. | |

Ar ol dathliadau'r nadolig, cychwynnodd yr ail hanner i'r flwyddyn yn ôl gydag nosweithiau clwb yn parhau yn wythnosol. Ond cyn i ni droi, roedd hi'n amser paratoi at y rali. Tynnodd pawb ei bwysau yn y gwaith paratoi a llwyddo i ennill y 4ydd safle wnaethom fel clwb yn rali y Rhiw.

Edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod yr ydym erbyn hym, gydag sywddogion newydd yn ei le yn y clwb ar gyfer blwyddyn llwyddiannus eto. Mae'r nosweithiau wythnosol wedi cychwyn yn ôl ac mae brwdfrydedd yr aelodau am y flwyddyn sydd i ddod yn well nag y fuodd o erioed.

Fel clwb, hoffem estyn ein gwerthfawrogiad i bawb a fu'n ein cynorthwyo a'n hyfforddi yn ystod y flwyddyn. Hoffem ddiolch i Elin am ei gwaith diflino, ond hefyd, hoffem ddiolch i'r swyddogion Sirol am ei gwaith angenrheidiol a ddifai yn cadw'r mudiad i fynd yn ystod cyfnod y pandemig. Hoffwn innau fel Cadeiryddes CFfI Caernarfon ddiolch i'r aelodau am ei parodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd ac i ddysgu. Mae ei agwedd tuag at yr CFfI yn bendant yn gwneud ein gwaith fel swyddogion clwb yn waith hawdd a gwobruol iawn.

- **Manon Puw ar ran CFFI Dyffryn Madog.**

Braf iawn oedd gweld y Clwb yn ail ddechrau eleni ar ôl dwy flynedd ddiflas. Mae'n anodd credu bod tair mlynedd wedi mynd heibio ers Rali lwyddiannus Ysbyty Ifan. Roedd hi'n braf iawn gweld wynebau newydd yn y Clwb yn ogystal â rhai cyfarwydd. Gyda thristwch y clywsom am benderfyniad Mair Parri, Gwindy i ymddeol fel arweinydd y Clwb wedi blynyddoedd o wasanaeth a chefnogaeth, mae colled wedi bod ar ei ôl. Llongyfarchiadau i Dafydd Martin Williams ar gael ei ethol yn gyd arweinydd, diolch am gamu i'r bwlch. Pob lwc i Elin hefyd yn ei rôl newydd fel Swyddog Cefnogi'r Sir.
Cafwyd noson hwyliog iawn i ddechrau'r tymor yn Fferm Llwyn Mafon Isaf gyda Slip and Slide a barbeciw blasus i ddilyn. Wedi hynny cawsom lawer o nosweithiau diddorol fel teithiau fferm, gemau, cwis, noson ffilm a tecawe, bingo a choginio. Ymysg y gweithgareddau, mae noson ddringo yng Nghaernarfon yn sefyll allan. Uchafbwynt arall oedd ymuno gyda Chlwb Llangybi lle cafwyd noson ClocsFit.

Bu llwyddiant yn yr Eisteddfod eleni. Enillodd Dyffryn Madog Darian Tudur Owen i'r Parti Deulais a chipio'r wobr am yr eitem orau yn yr Adran Gerdd. Enillodd Erin Gwpan Griff Roberts, Porthdinllaen am yr eitem orau yn yr Adran Lefaru. Aeth 5 eitem buddugol o'r Clwb ymlaen i gynrychioli Cymru. Llongyfarchiadau i Erin am dderbyn yr ail wobr yn y Monolog. Diolch yn fawr i Gwenan Dwyfor Roberts am eu hyfforddi a Rhys Glyn am gyfeilio.

Bu rhai aelodau yn cystadlu yn y Ffair Aeaf yn Nhŷ Newydd a braf oedd gweld aelodau ifanc yn mentro.

Mentrodd rhai ar y siarad cyhoeddus hefyd a llongyfarchiadau i Anna Pugh ar gael ei dewis i dîm siarad cyhoeddus Eryri.

Hoffwn ddiolch i'r holl aelodau a swyddogion am eu hymroddiad i'r Clwb.

- **Lois Elan Jones ar ran CFFI Dyffryn Nantlle**.

Braf ydi bod yng nghwmni swyddogion ac aelodau a ffrindiau'r sir heno, llawer brafiach na'r tywydd gawson ni heddiw.

Awn ni'n nôl i fis Medi dwytha' i gychwyn. Croesawu aelodau'n ôl gyda noson o gemau i ddod i 'nabod eu gilydd a chofio pwy oedd pwy ar ôl gymaint o amser ar wahan. Yn dilyn y noson agoriadol mi gawson ni ystod eang o nosweithiau clwb, megis noson Taskmaster, ymweliad i Menai Jerseys gyda Chlwb Caernarfon a noson chwaraeon ym Mhlas Silyn. Daeth llwyddiant gyda'r Eisteddfod ar y 23ain o Hydref i un o'n haelodau wrth iddi gipio'r gadair, llongyfarchiadau mawr Elan Mair. Gorffennodd y cystadlu a daeth y clwb yn 3ydd. Mae'r clwb hefyd yn falch iawn o Leisa a fuodd yn cynrychioli'r sir yn Eisteddfod Cymru ym mis Tachwedd gan gipio'r wobr gyntaf yn yr unawd dan 16 ac ail yn yr unawd alaw werin.

Mae'r holl gystadlu 'ma yn waith caled, ac felly ffarwelion ni gyda 2021 wrth ddathlu ein llwyddiannau gyda gem o AirSoft a phitsa yn Crasu yn y parti Nadolig.

Ymlaen a ni i 2022 a gyda blwyddyn newydd daeth mwy o nosweithiau di-ri gan gynnwys noson Sion a Sian, ymweld a Thy'n Llan a Coffi Poblado. Gyda blwyddyn newydd death newid i'n clwb hefyd, bu Gwen i roi'r gorau i fod yn gadeirydd ar ôl sawl blwyddyn o weithio'n ddiflino – a hoffwn gymryd y cyfle yma i ddiolch iddi unwaith eto am yr holl waith. Gyda dim cadeirydd swyddogol i gymryd ei lle, bu i'r swyddogion lenwi y twll, a hoffwn ddiolch yn fan hyn i Gwen ac i Elin am ateb yr holl gwestiynna twp gen i, ac yn parhau i wneud hyd heddiw.

Nid yw'n ddrwg o beth bod ganddom ambell I aelod siaradus pan mae'n dod i'r gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus, llongyfarchiadau i'r tim dan 14 am ddod yn ail, ac i'r tim dan 16 am ddod yn ail hefyd. Bu Anni  a Lucy yn cynrychioli'r sir yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru.

Gyda 'chydig o nosweithiau clwb ar ôl cyn ymarferion y rali, croesawom ni ffotograffydd lleol atom, noson gyda sefydliad y DPJ ac trafod y syniad o Hwb Bwyd ym Mhenygroes gyda'r Orsaf.

A gyda hynny, roedd hi'n Fis Mai. Gyda phrysurdeb y rali yn cicio off roedd hi'n syth i fewn i ymarferion canu a dawnsio, peintio, coginio, gwneud gwisgoedd a phob dim yn y canol. Chwip o rali oedd hi hefyd felly diolch i glwb y Rhiw am ei chynnal a'i wneud yn un mor dda. Daeth y clwb yn wythfed ar y diwedd y cystadlu.

Bu'r criw canu i lawr yn y Sioe Frenhinol yn cystadlu yng nghanol y gwres

mawr. Diolch i glwb Llangybi am roi menthyg gwisgoedd i ni ddefnyddio – er i'n aelodau bron iawn feddalu ynddyn nhw.

Yn y pwyllgor blynyddol ar yr 8fed o Fehefin, fe penodwyd fi ac Elen yn gadeiryddion y clwb a 'so far so good' fel maent yn ddweud. Fe gymron ni fantais ar y grant haf o hwyl gan Llywodraeth Cymru i gynnal ein noson agoriadol ar fferm Lleuar yn Llanllyfni gan gynnal gem o rownderi a barbeciw. Hyd yn hyn mae tua pymtheg o aelodau newydd wedi cychwyn gyda'r clwb ac felly 'da ni'n edrych ymlaen am beth sydd gen y flwyddyn nesa' i'w gynnig i'n clwb ni.

Hoffwn orffen yr adroddiad drwy ddiolch a dymuno pob lwc i'r holl swyddogion sy'n cael ei ethol heno, a dwi'n siwr erbyn diwedd y flwyddyn mi fyddwch chi 'di cael llond bol o weld fy enw i'n poppio fyny ar eich ffôn yn gofyn mwy o gwestiyna twp!

Diolch yn fawr

- **Sallie Roberts ar ran CFFI Dyffryn Ogwen.**

Dechreuodd y clwb nol ym mis Medi 2021 ar ôl be oedd yn teimlo fel amser maith ers cynnal noson. Gyda'r hen griw yn ôl ac ambell i wyneb newydd. Cafwyd helfa drysor i ddechrau a orffennodd yn Ty Newydd, Llandegai am barbeciw.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd nifer o nosweithiau difyr yn cynnwys gemau gwirion , ymweld â Fferm Menai Jerseys, noson ffilm a Elen o Sefydliad DPJ.

Mwynhaodd yr aelodau gystadlu yn y Ffair Aeaf, Siarad Cyhoeddus, Barnu a'r Rali. Llongyfarchiadau i'r rhai gafodd lwyddiant a diolch iddynt am fynd i gynrychioli'r Sir yng Nghymru.

Ar ôl prysurdeb y flwyddyn buom ddigon ffodus i westeio ymwelydd tramor – Peter o Ogledd Iwerddon yn ystod mis Gorffennaf. Bu'n aros gyda teulu Griffith yn Bethesda a cafwyd ychydig o ddyddiau da yn ei gwmni. Ymwelwyd a ffermydd lleol, Sir Fôn a Sarn. Bu hefyd yn cerdded mynydd gyda rhai o'r aelodau. Diolch yn fawr iawn i deulu Griffith am adael i Peter aros efo nhw ag i Awel, Betsan, Meilir a Sallie am fod yn gyfrifol amdano.

Yn olaf, hoffaf ar ran Clwb Dyffryn Ogwen ddiolch i bawb sydd wedi helpu'r clwb yn ystod y flwyddyn hon. Diolch mawr i'r Arweinyddion – Cari a Geraint am gadw trefn arnom. Diolch arbennig hefyd i swyddogion a staff sirol am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn.

Bob lwc i bawb am y flwyddyn nesa.

Diolch yn fawr iawn.

- **Miriam Williams ar ran CFFI Godre’r Eifl.**

Dyma ni ar drothwy blwyddyn brysur arall i aelodau Clwb Godre’r Eifl. Blwyddyn o gymdeithasu, cystadlu a digonedd o hwyl.

Cyn cychwyn edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, hoffem diolch i Ffermwyr Ifanc Eryri am gynnal digwyddiadau rhithiol yn ystod y clo mawr. Cawsom Eisteddfod a Rali rithiol, cyfres o sgyrsiau addysgiadol dros Zoom, ac ni allwn chwaith anghofio am y sialens *toilet roll*! Yn sicr fe wnaeth y digwyddiadau hynny godi ein calonnau yn ystod cyfnod heriol iawn.

Daeth Clwb Godre’r Eifl ynghyd am y tro cyntaf ers Clo Mawr Mawrth 2020 ym mis Medi 2021, a hynny mewn parti yn fferm Tanrallt, Efailnewydd. Daeth aelodau newydd, presennol yn ogystal â chyn-aelodau ynghyd i ddiolch yn fawr i Ann a Gwyndaf am dros ddeng mlynedd o wasanaeth fel arweinwyr Clwb Godre’r Eifl. Mwynhasom wledd fendigedig wedi’i pharatoi gan Caffi Ni, Nefyn ac roedd Rhodri ein Is-gadeirydd wedi trefnu gemau hwyliog i ddiddanu pawb. Hoffem gymryd y cyfle hwn i ddiolch yn fawr unwaith eto i Ann a Gwyndaf am eu gwaith diflino a’u hymroddiad dros yr holl flynyddoedd. Yn sicr, mae’r flwyddyn gyntaf hon o nosweithiau clwb heb eu harweiniad a’u cwmni wedi teimlo yn chwithig iawn ar brydiau.

Mor braf oedd plethu’r hyn oedden ni wedi ei ddysgu yn y cyfnod clo i mewn i’r flwyddyn ddiwethaf drwy gynnal digwyddiadau wythnosol. Roedd llawer o’r digwyddiadau wyneb yn wyneb megis helfa drysor ceir ac ymweliad i Siop Fferm Abersoch, ac eraill yn rhithiol, fel cwis doniol iawn yng nghwmni Dewi pws a’i wraig, Rhiannon.

Fel pob blwyddyn arall, mae’r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn llawn o gystadlu brwd. Diolch yn fawr iawn i bawb sy’n dod atom yn wirfoddol i’n hyfforddi ar gyfer cystadlaethau’r flwyddyn gan gynnwys Enid Evans, Arwyn, Rhian ac Elen gyda’r Eisteddfod heb anghofio Dewi Tŷ Corniog gyda’r barnu a’r Rali. Hoffwn hefyd ddiolch i rieni a theuluoedd yr aelodau am helpu i feddwl am syniadau ar gyfer cystadlaethau ac am ddanfon pawb i’r holl ymarferion!

Ond yn fwy na hynny, mae’r diolch mwyaf yn mynd i’r aelodau gweithgar sydd wedi serenu dros y flwyddyn ddiwethaf! Er fod aelodaeth y clwb wedi lleihau yn y blynyddoedd diwethaf, mae’r aelodau wedi bod yn llwyddiannus ym mhob cystadleuaeth sirol eleni. Daeth sawl tarian i ofal y clwb am y flwyddyn gan gynnwys rhai am ddod yn ail yn yr Eisteddfod ac am waith celf a chrefft yn y Rali. Rydym hefyd yn falch iawn o dderbyn Tlws Brwdfrydedd y Sir eleni am y clwb oedd wedi casglu’r mwyaf o farciau mewn cyfartaledd gyda nifer yr aelodau. Diolch yn fawr iawn i’r holl aelodau, a llongyfarchiadau!

Hoffai’r clwb hefyd longyfarch pawb a fu’n cystadlu dros y flwyddyn ac yn enwedig i glwb Llangybi am fod yn fuddugol yn yr Eisteddfod, ac i glwb Y

Rhiw am fod yn llwyddiannus yn eu Rali llewyrchus dros ben!

Yn ystod y flwyddyn, bu i'r clwb godi arian ar gyfer elusennau pwysig iawn: The DPJ Foundation, Awyr Las ac Tir Dewi. Mae hyn yn dilyn penderfyniad Meinir, Cadeirydd y Sir i god arian i Mind a DPJ Foundation fel rhan o'i her. Wrth gwrs, roedd yr aelodau a thrigolion yr ardal yn awyddus iawn i gefnogi'r elusennau hyn yn dilyn sawl trychineb lleol, ac rydym dal i gofio am y teuluoedd hynny heddiw.

Daeth Clybiau Porthdinllaen, Llangybi a ninnau at ein gilydd er mwyn cynnal taith tractors er budd yr elusennau hyn. Llwyddom i godi £3750.00 i'w rannu'n gyfartal rhwng y tri elusen. Unwaith yn rhagor, hoffwn ddiolch i'r gymuned gyfan am ddod i'n cefnogi – y 110 dreifar tractor, yr holl passengers, pawb ddaeth i gefnogi ar y dechrau ac i bawb oedd wedi ymgynnull ar hyd y daith i weld y tractors yn mynd heibio. Ni fyddai'r diwrnod wedi bod yn lwyddiant oni bai am garedigrwydd Haydn a'i staff yn Wynnstay, Ela a'i thim yn Oinc Oink, Glyn Bryn Mawr am ei gymorth, Arwel Gilfach am ei gynghor ac Enlli, Gwen a Huw am dynnu lluniau gwerthfawr. Diolch i'n noddwyr, ac i pawb oedd wedi dod allan ar ddiwrnod poeth ym mis mai ar gyfer tair elusen hynod arwrol.

Teimla'r clwb fod gefnogaeth Cyngor Gwynedd wedi bod yn allweddol ar gyfer ail-gychwyn cyfarfod yn llwyddiannus. Dros y flwyddyn diwethaf rydym wedi gallu mynd i fowlio yn Glasfryn a chael pryd o fwyd yno ac hefyd mynd i Bounce Below gyda chinio dydd Sul yn Grapes Maentwrog (ar y ffordd adra) fel rhan o'u grant Gaeaf Llawn Lles a Haf o Hwyl. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'r Cyngor a'r Ffederasiwn am £500 ar ddechrau'r flwyddyn hon eto. Rydym wedi llwyddo i ddenu aelodau newydd drwy gynnal noson gemau a pitsa, ac hefyd wedi prynu esgidiau addas ar gyfer y gystadleuaeth tynnu rhaff gyda'r arian yma. Diolch yn fawr iawn iddyn nhw!

Hoffem fel swyddogion longyfarch Elin am ei gwaith caled a'i chefnogaeth gwerthfawr fel Swyddog Cefnogol y sir. Ni allwn chwaith gloi ein hadroddiad heb ddiolch o galon i gyn-drefnydd y sir, Eleri a'i hysgrifenyddes, y diweddar Elin, am flynyddoedd o wasanaeth amhrisiadwy i'r mudiad.

Dymuniadau gorau am y flwyddyn nesaf, mae hi'n siwr o fod yn un cofiadwy arall!

- **Lora Jen Pritchard ar ran CFFI Llangybi.**

Ar ôl bwlch o ddwy flynedd, roedd y cyffro o ddod nôl i'r drefn yn dew. Fis Medi, 2021, oedd fy mlwyddyn gyntaf i fel aelod yng Nghlwb Llangybi, ac am chwip o flwyddyn oedd hi!

O ymweld â Fferm Crugeran, i ddringo yng Nghanolfan Beacon, cafwyd amrywiaeth o nosweithiau yng nghalendr blynyddol y clwb. Mae Clwb Llangybi yn gwerthfawrogi amser ac ymdrech pob ymwelydd, teulu a chwmni

a gytunodd i gynnal noson â ni. Rydym yn lwcus iawn o barodrwydd busnesau a thalentau lleol i rannu eu straeon a'u profiadau.

Buan iawn y daeth mis Hydref, a'r Eisteddfod yn nesáu. Wedi'r ymarferion ddarfod, balch iawn oedd cael dod ar darian yn ei hôl i Gapel Pencae. Fis Tachwedd, aeth criw ohonom i lawr i Bont Rhyd Fendigaid i gystadlu ar ran y Sir, ac am deimlad oedd cael cynrychioli Llangybi ar lwyfan Cymru am y tro cyntaf!

Drwy gydol y flwyddyn bu i aelodau Llangybi gystadlu mewn llu o gystadlaethau. O farnu yn y Ffair Aeaf, i farnu ar Fferm Nanhoron cyn y Rali. Noson bwysig yng nghalendr y clwb eleni oedd y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus. Gyda Cynwal yn dwyn teitl Aelod Iau y Flwyddyn, a sawl aelod o Langybi yn ennill ac yn mynd ymlaen i gystadlu yn Llanelwedd, roedd y digwyddiad hwnnw yn un i'w drysori eleni. Hefyd bu i dri aelod ifanc o Langybi ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth Ffensio y Ras Aredig. Rydan ni'n teimlo'n hynod o lwcus o gael y fath amrywiaeth o gyfleoedd ar hyd y flwyddyn, ac yn aelodau balch o Ffederasiwn Eryri o'u hachos.

Rhywbeth a fu'n sioc mawr i ni fel clwb eleni, oedd dod yn ail yn yr Rali. Fel clwb sydd ddim yn hanesyddol gryf yng nghystadlaethau'r Rali, roedd hyn yn destament fod gwaith caled a brwdfrydedd aelodau yn talu ar ei ganfed. Diolch i Glwb y Rhiw am gynnal diwrnod i'w drysori.

A thra'n sôn am drysor, Cadeirydd y Sir eleni oedd Meinir Bryn Mawr. Un o'r aelodau mwyaf triw a gweithgar sy'n bod. Rydym mor eithriadol o falch ohonot ti Meinir, ac yn gobeithio fod gweddill y Sir wedi cydnabod dy gyfraniad amhrisiadwy di dros y flwyddyn diwethaf.

Amhosib yw enwi pob digwyddiad y Ffermwyr Ifanc ers Medi 2021. Ond does dim amheuaeth fod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn un o'r rhai mwyaf llwyddiannus a chofiadwy i Glwb Llangybi ers talwm iawn.
Ar ran holl aelodau Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i Elin, Gwen a Meinir sydd wedi gweithio'n ddi-flino tu ôl i'r llenni i sicrhau blwyddyn brysur, diddorol a chyffrous i holl aelodau Eryri. Ac edrychwn ymlaen at y flwyddyn brysur sydd o'n blaenau.

- **Dylan Roberts ar ran CFFI Llanrwst.**

Braf oedd sôn am gyfarfod eto ym mis Medi 2021 gan ddechrau’r flwyddyn gyda barbeciw. Nid oedd yn gychwyn delfrydol gan nad oedd llawer o’r aelodau iau yno oherwydd eu bod yn gorfod hunanynysu! Er hynny, roedd niferoedd da wedi bod yn dod i’r clwb wrth i ni gyfarfod bob pythefnos i ddechrau ac yna yn wythnosol. Er na wnaethom allu cynnal parti Nadolig eleni oherwydd y sefyllfa Covid, roed parti Pasg i wneud iawn am hynny!

Rydym wedi bod yn brysur yn cystadlu eleni hefyd. Bu’r clwb yn llwyddiannus iawn yn y Ffair Aeaf sirol, lle’r oedd sawl aelod yn 1af, 2il a 3ydd, ac wedyn

ar lefel Cymru yn y Ffair Aeaf yn Llanelwedd, lle cafodd Arthur a Robin, Tyddyn Du, 1af am farnu gwartheg cigyddion. Cafwyd llwyddiant yn y Siarad Cyhoeddus, gydag un tîm dan 16 yn fuddugol a'r tîm dan 28 yn 2il. Roedd cynrychiolaeth dda yn mynd ymlaen i gystadleuaeth Cymru hefyd. Llongyfarchiadau i bawb! Roedd criw gweithgar hefyd wedi bod yn paratoi at y Rali yng Ngwythrian, a thalodd hynny i'r clwb wrth inni gael 3ydd.

Mae criw addawol wedi dod ynghyd yn barod at eleni mewn noson groesawu ac rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn brysur arall.

- **Gethin Wynne ar ran CFFI Rowen.**

Wel ella ni gyd cytuno mar flwyddyn diwethaf wedi hedfan !! A braf oedd cael y ffermwyr ifanc yn dol ar ôl gyfnod pryderus yn ysgil covid .

Gafodd ni noson ysgafn croesawu aelodau yn ty Gwyn noson Hynod o llwyddiannus dros Ben gyda ein aeloda wedi dyblu !!

Mae'r clwb wedi cystadlu dipyn o weithgareddau y sir megis yr eisteddfod y ffair aeaf , barnu stoc ac yr rali i enwi rhai , a rhai or clwb d bod yn cystadlu yn y ffair aeaf yn Llanelwedd , a rhai wedi bod lawr yn y sioe frenhinol hefyd yn cystadlu.

Mae hi wedi bod yn bleser i cael enwau i mewn i cystadlaethau sir , gan fod pawb yn barod i rhoi enwau i mewn sydd yn neud gwaith yr aelodau hun yn clwb dipyn haws , ond ma ne ddiolch mawr yn mYnd i Mari sydd wedi bod yma i barod ein helpu ni hefo Yr eisteddfod helpu hefo y diwrnod oedd y clwb yn gwneud bwyd yn open gardens Rowen ac ein helpu hefo cystadlaethau rali , hefyd ma ne ddiolch mawr yn mynd i Ieu hefo tynnu rhaff gan rhoi eu amser 2-3 noson yr wythnos i hyfforddi ac i criw dyffryn Ogwen aeth ymuno a ni i greu tim tynnu rhaf hun.

Mae angen llongyfarch clwb y rhiw am gynnal chwip o rali
Mae na ddiolch mawr yn mynd ir rhieni a ffrindiau y sydd wedi bod yn helpu hefo y clwb.
Mae yna ddiolch yn mynd i Meinir a Gwen ar swyddogion y sir sydd wedi bod yn rhedeg y sir am gyfnod heb trefnydd neu swyddog cefnogi sir .
Ac yn olaf Diolch i Elin ein swyddog cefnogi sydd wedi bod mor barod i helpu bob amser Diolch

- **Robat Thomas ar ran CFFI Y Rhiw.**

Cynhaliwyd y noson agoriadol yn Glampio Coed, Rhoshirwaun. Braf iawn oedd cael ymgynnull eto wedi'r fath amser a braf iawn hefyd croesawu wynebau newydd. Cafwyd noson hwyliog dros ben a pizzas bendigedig!

Cafwyd nosweithiau difyr o Fedi dan y Nadolig gan gynnwys noson ddifyr yng nghwmni Euros Hughes yn cynnal helfa drysor drwy fap. Cawson hefyd noson gystadleuol yn Bowlio 10 Glasfryn ac yna noson yng nghwmni'r arwerthwr

Huw Myfyr. Roedd pawb wedi mwynhau cael cyfle i brisio ond efallai y byddai'n well gadael y prisio i Huw! Braf iawn oedd cael croesawu Mathew Penllech Bach atom i gynnal sgwrs ddifyr am y diwydiant godro a'i fenter newydd – Garej Ni, Sarn. Fe wnaeth Lois gynnal noson ddifyr i n hefyd eto gwelwyd ysbryd cystadleuol iawn yr aelodau.

O fis Ionawr i Fawrth cafwyd eto nosweithiau difyr. Gwelwyd ysbryd cystadleuol eto mewn noson hwyliog dros ben a gynhaliwyd gan Meinir, Cadeirydd y Sir. Buom yn ffodus hefyd i fanteisio ar nawdd Gaeaf Llawn Lles drwy gael noson yn Beacon Climbing yng Nghaernarfon. Roedd pawb wedi mwynhau yn arw gyda rhai wedi wynebu eu hofnau. Yn sicr, uchafbwynt arall oedd noson yng nghwmni Lowri o'r elusen DPJ yn codi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl. Cafwyd noson ddifyr iawn yn Siop Fferm Abersoch gyda Sion yn dysgu am fenter lwyddiannus. Nosweithiau difyr eraill oedd dysgu am wenynod gan John  Bwlch Ffordd ac ail ymweld a Colin Cae Hen i weld Cwch Enlli wedi ei chwblhau.

O hynny ymlaen, ymarfer a pharatoi at y Rali fu'r Clwb.

Diolch yn fawr i Glesni Talsarn am ein harwain dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn hynod ddiolchgar iddi am ein cefnogi a'r ymroddiad i'w clwb a'r aelodau.

- **Elenid Alun ar ran CFFI Ysbyty Ifan.**

Er mwyn dechrau dod nol i rhyw fath o 'swing' cawsom bwyllgor blynyddol ym Mis Medi, ac ethol swyddogion newydd i'r clwb. Penderfynwyd cynnal clwb bob pythefnos am y tro er mwyn ceisio dod nôl i arferiad a denu aelodau newydd.  Dechreuwyd y flwyddyn yn agos at adref ar fferm Pennant, Ysbyty Ifan. Pawb gyda'i frwsh paent yn ei law ar gyfer noson fach hwyliog o beintio giatiau ar gyfer Sioe Gwn Ysbyty Ifan. Cawsom dêc awê bach i groesawu pawb yn ôl i'r clwb – yn aelodau hen a newydd . Noson hwyliog arall mae pawb yn ei mwynhau yw noson Helfa Drysor. Diolch yn fawr iawn i Sioned Pennant am drefnu yr helfa i ni eleni. Er fod yna ambell gar wedi mynd y ffordd anghywir ac heb ddarllen y cyfarwyddiadau yn iawn,  braf iawn oedd cael diweddu y noson yn saff yn y neuadd a chael pitsa blasus gan Alun Tan Lan i lenwi'n boliau.

Daeth yn gyfnod dechrau ymarfer ar gyfer y Steddfod nesa, a chyfle i ganu o'r diwedd wrth baratoi i gystadlu ym Mhorthmadog. Llongyfarchiadau mawr i Llangybi am ennill yr Eisteddfod eleni.

Braf hefyd oedd cael ail gydio yn y barnu ar gyfer y ffair Aeaf a chael cyfle am drip i Lanelwedd i farnu carcas. Diolch i Hefin Bryn Ddraenen a Guto Carreg y Fran am bob cymorth gyda'r paratoadau.

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn yw cael cystadlu yn y Siarad Cyhoeddus yng Nghaernarfon. Diolch o galon i Mari Carreg Y Fran am ein helpu unwaith eto

| | | |
|---|---|---|
| | eleni. Braf iawn oedd cael llwyddiant gyda'r ddau dîm siarad cyhoeddus a llongyfarchiadau i bawb aeth ymlaen i Lanelwedd i gystadlu.<br><br>Cawsom noson ddiddorol iawn ddechrau Ionawr yng nghwmni Trefor, Ceir Cymru yn garej Glasfryn, a noson gan elusen DPJ yn Neuadd Sbyty yn hwyrach yn y tymor. Ymhlith gweddill gweithgareddau'r tymor roedd parti Nadolig hwyr yn Surf Snowdonia, noson ysgafn o chwarae gemau bwrdd ac yfed siocled poeth, a noson o goginio a mwynhau crempogau blasus iawn! Croesawyd Meinir, Cadeirydd y Sir i'r clwb a chafwyd noson llawn hwyl a gemau gwirion. Yn ddiweddar cawsom wahoddiad i ymuno gyda Clwb Uwchaled a Chwmtirmynach yn Ysgol Cerrig y drudion, a chael noson hwyliog iawn yno yng nghwmni Sian Pentre Draw.<br><br>Prysurdeb mawr wrth gychwyn paratoit y Rali yn Gwrthian. Pawb wedi cyffroi yn lan, ac yn falch iawn o gael y rali yn nol. Sbyty wedi dod yn bumed a phawb wedi mwynhau eu diwrnod, diolch yn fawr i glwb y Rhiw am westeio. Rhai wedi cael llwyddiant, ac wedi bod lawr yn sioe fawr Llanelwedd. Clwb Syty hefyd wedi bod yn brysur yn gwesteio Peter o Iwerddon ac wedi mwynhau ei gwmni yma.<br><br>Rydym yn edrych mlaen am flwyddyn llawn hwyl eto flwyddyn yma. A diolch o galon i'r aelodau i gyd am eu gwaith, er mwyn cynnal y clwb, ac hefyd i staff y sir am eu cefnogaeth.<br><br>• Ni chafwyd adroddiad gan CFFI Porthdinllaen.<br><br>*Mae copiau o'r holl adroddiadau wedi eu hatodi. | |
| **12.** | **ETHOL SWYDDOGION Y MUDIAD am 2022/2023**<br>**a. Llywydd**<br>• Cynigiodd Manon Puw, Dyffryn Madog Geraint Puw, Dyffryn Madog ac eiliodd Lois Elan Jones, Dyffryn Nantlle. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law.<br>**b. Is Lywydd**<br>• Cynigiodd Lois Glyn Jones, Y Rhiw Huw Thomas, Meillionnydd ac eiliodd Miriam Williams, Godre'r Eifl. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law.<br>**c. Cadeirydd**<br>• Cynigiodd Elen Williams, Dyffryn Nantlle Gwen Thomas, Dyffryn Nantlle ac eiliodd Lora Jen Pritchard, Llangybi. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law.<br>**Ch. Is-Gadeirydd**<br>• Cynigiodd Non Griffith, Caernarfon Sioned Wyn Jones, Caernarfon ac eiliodd Glesni Lewis, Dyffryn Nantlle. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law.<br>**d. Trysorydd ac Is Drysorydd**<br>• Cynigiodd Meinir Owen, Llangybi Elin Jones, Godre'r Eifl yn Drysorydd a Glesni Jones, Dyffryn Nantlle yn Is Drysorydd, eiliodd Gwen Thomas, Dyffryn Nantlle. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law. | |

| | | |
|---|---|---|
| 13. | **CADARNHAU CYFANSODDIAD AC YMDDIRIEDOLWYR Y MUDIAD**<br>Cynigiodd Gwen Thomas, Dyffryn Nantlle bod y canlynol yn gweithredu fel ymddiriedolwyr y Mudiad am y flwyddyn 2022/2023:<br><br>• CFFI Caernarfon: Sioned Jones a Non Griffith<br>• CFFI Dyffryn Madog: Dafydd Parry ac Erin Roberts<br>• CFFI Dyffryn Nantlle: Lois Elan Jones ac Elen Williams<br>• CFFI Dyffryn Ogwen: Iwan Harper a Betsan Griffith<br>• CFFI Godre'r Eifl: Manon Jones a Rhodri Jones<br>• CFFI Llangybi: Siwan Owen a Robin Pari<br>• CFFI Llanrwst: Arthur Williams a Dylan Roberts<br>• CFFI Porthdinllaen: Beca Dobson<br>• CFFI Rowen: Elliw Newsham a Heledd Williams<br>• CFFI Y Rhiw: Lora Thomas a Sera Griffiths<br>• CFFI Ysbyty Ifan: Elenid Alun a Marged Alun<br>• Llywydd: Geraint Puw<br>• Is Lywydd: Huw Thomas<br>• Cadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Hyfforddiant: Gwen Thomas<br>• Is-Gadeirydd: Sioned Wyn Jones<br>• Trysorydd: Elin Jones<br>• Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Staffio: Miriam Williams<br>• Cadeirydd Pwyllgor Rali: Erin Roberts a Manon Puw<br>• Aelod Hyn: Iwan Harper<br>• Aelod Iau: Lora Jen Pritchard<br>• Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod: Gronw Ellis Griffith<br><br>Eiliodd Meinir Jones, Llangybi y cynnig.<br><br>Ni chafwyd cynnig arall a chytunodd pawb. | |
| 14. | **TÂL AELODAETH**<br>• Nodwyd bod lefi tâl aelodaeth CFFI Cymru yn £18 eleni.<br>• Nodwyd bod y Pwyllgor Gwaith wedi pleidleisio i gadw lefi tâl aelodaeth CFFI Eryri'r un fath am eleni ac felly bydd £25 o dâl aelodaeth yn ddyledus i'r Sir eleni.<br>• Cynigiodd Glesni Jones, Is Drysorydd ac eiliodd Gwen Thomas, Dyffryn Nantlle.<br>• Ni chafwyd unrhyw gynnig arall. | |
| 15. | **CYFLWYNO TLYSAU 2021-2022**<br>• **Tarian Goffa Llinos Owen:** Llangybi<br>• **Cwpan W.J.Owen:** Llangybi<br>• **Tlws Hafod y Llan:** Rowen<br>• **Tlws Hwsmon Iau'r Flwyddyn:** Alaw Morgan, Caernarfon | |

| | | |
|---|---|---|
| | • **Tlws Stocmon y Flwyddyn:** Bedwyr Jones, Caernarfon<br>• **Cwpan Barhaol Bob Parry:** Caernarfon<br>• **Tlws y Flwyddyn:** Llangybi<br>• **Tarian Henblas:** Godre'r Eifl<br>• **Tarian Catherine Rhian**: Llangybi | |
| **16.** | **UNRHYW FATER ARALL**<br>• Eglurodd Elliw Owen bod yr Ambiwlans Awyr yn ystyried cau eu safle yn Dinas Dinlle ac adleoli'r gwasanaeth i Lanelwy. Gofynnodd wrth yr aelodau i arwyddo deiseb yn gwrthwynebu'r bwriad. | |
| **16.** | **DIOLCHIADAU**<br>Talodd Gwen Thomas, Is Gadeirydd y Sir y diolchiadau.<br><br>Diolchodd i'r canlynol,<br>• Mr Geraint Roberts, Llywydd y Sir<br>• Elin Jones a Glesni Lewis, Trysorydd ac Is Drysorydd y Sir<br>• Cadeiryddion, Is Gadeiryddion ac Ysgrifennyddion yr holl Bwyllgorau<br>• Y Clybiau a'i Swyddogion<br>• Y Newborough Arms, Bontnewydd<br>• Pob Beirniad, Stiward a Chefnogwr<br>• Elin Jones, Swyddog Cefnogi'r Sir<br>• Meinir Jones, Cadeirydd y Sir | |

Daeth y cyfarfod i ben am 20:30.

**ATODIAD 1: MANTOLEN**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## GWERTH Y FFEDERASIWN AR MEHEFIN 30ain 2022

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol *(NATWEST)* | £4,314.22 |
| Cyfrif Cadw *(NATWEST)* | £0.00 |
| Cyfrif Clwb 200 *(NATWEST)* | £1,352.00 |
| Cyfrif Tripiau *(NATWEST)* | £0.00 |
| Cyfrif Cyfredol *(HSBC)* | £37,167.51 |
| Cyfrif Cadw *(HSBC)* | £63,100.77 |
| Cyfrif Tripiau *(HSBC)* | £646.30 |
| Cyfrif Hyfforddiant *(HSBC)* | £6,353.49 |
| **Cyfanswm** | **£ 112,934.29** |

(Gwerth y Ffederasiwn ar Mehefin 30ain 2021 = £86,237.70)

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2022

**Cyfrif Cyfredol Natwest 15500039**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2021 | 6,212.06 | |
| Swyddfa | 0.00 | 449.68 |
| Llungopiwr | 0.00 | 1,448.16 |
| Grant Gaeaf Llawn Lles - Cyngor Gwynedd | 1,062.50 | 0.00 |
| Trosglwyddo'r grant uchod i'r Cyfrif Cyfredol HSBC | 0.00 | 1,062.50 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2022 | | 4,314.22 |
| **CYFANSWM** | **7,274.56** | **7,274.56** |

**TRYSORYDD:** ______________________________________

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:**______________________________________

**Glesni Jones Is-drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

# MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2022

**Cyfrif Cadw Natwest - 15511588**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2021 | 0.00 | |
| Trosglwyddo i'r Cyfredol Natwest | | 0.00 |
| Llôg | 0.00 | |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2022 | | 0.00 |
| **CYFANSWM** | **0.00** | **0.00** |

**TRYSORYDD: ________________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:**________________________________________________

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2022

**Cyfrif Clwb 200 Natwest – 15500063**

| | **DERBYNIADAU**<br>**£** | **TALIADAU**<br>**£** |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2021 | 45.00 | |
| Tal Aelodaeth | 1,712.00 | |

| | | |
|---|---|---|
| Gwobrau 2021-22 | | 390.00 |
| Trosglwyddo i'r Cyfredol HSBC | | 15.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2022 | | 1,352.00 |
| **CYFANSWM** | **1,757.00** | **1,757.00** |

**TRYSORYDD: ________________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:________________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2022

**Cyfrif Tripiau Natwest - 73751073**

| | DERBYNIADAU £ | TALIADAU £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2021 | 0.00 | |
| Trosglwyddo i'r cyfrif Cyfredol HSBC | 0.00 | 0.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2022 | | 0.00 |
| **CYFANSWM** | **0.00** | **0.00** |

**TRYSORYDD:** ______________________________

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:**__________________________________________________

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2022

**Cyfrif Cyfredol HSBC - 51846477**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2021 | 9,782.30 | |

| | | |
|---|---|---|
| Aelodaeth 2021-22 | 9,400.00 | 0.00 |
| Yswiriant 2020-21 | 0.00 | 660.00 |
| Cardiau Aelodaeth | 0.00 | 608.00 |
| Rali 2021-22 | 34,446.15 | 16,926.54 |
| Erwau 2020-21 | 1,250.00 | 2,685.00 |
| Eisteddfod Sir Eryri | 1,413.20 | 1,566.00 |
| Eisteddfod Cymru | 265.00 | 265.00 |
| Ffair Aeaf | 0.00 | 0.00 |
| Siarad Cyhoeddus | 0.00 | 28.41 |
| Noson Codi Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl | 281.00 | 281.00 |
| | 179.57 | 0.00 |
| Noson Garolau’r Sir | 0.00 | 585.00 |
| Pwyllgor Blynyddol | 500.00 | 0.00 |
| Cynghorau Cymuned | 1,705.00 | 1,599.00 |
| Parti Nadolig | 50.00 | 0.00 |
| Ras Aredig | 0.00 | 40.00 |
| Rygbi | 123.80 | 0.00 |
| CFfI Cymru – Cynllun Wyn Dunbia | 2,200.50 | 2,090.50 |
| Grant Gaeaf Llawn Lles | 0.00 | 2,261.23 |
| Swyddfa | 0.00 | 47.58 |
| Ffi Banc - HSBC | 25.00 | 0.00 |
| Mygiau Iechyd Meddwl | 5,330.00 | 0.00 |
| Cynllun Ffrindiau | 7,356.00 | 0.00 |
| Grant Llywodraeth Cymru | 0.00 | 561.98 |
| Gwariant Grant Mantell Gwynedd | 5,000.00 | 0.00 |
| Cyfraniad NFU tuag at gostau cyflogi | 0.00 | 0.00 |
| Paypal – ‘Easy Funding’ | 0.00 | 10.00 |
| CFFI Cymru | 0.00 | 590.31 |
| Costau Teithio | 50.00 | 50.00 |

| | | |
|---|---:|---:|
| CFFI Y Rhiw | 1,087.21 | 155.00 |
| Cronfa er cof Wyn Griffith, Bodlondeb | 0.00 | 125.00 |
| Hyfforddiant Staff | 0.00 | 300.00 |
| Hysbysebu Swydd | 1,512.50 | 0.00 |
| Apêl Wcraen – Cyfraniad Llywydd | 15.00 | 0.00 |
| Trosglwyddo o’r Cyfrif Clwb 200 | 0.00 | 15,801.95 |
| Cyflog 2021-22 | 432.78 | 0.00 |
| Cynllun Furlough | 2,000.00 | 0.00 |
| Rhent Cool Hire 2022 | | |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2022 | | 37,167.51 |
| **CYFANSWM** | **84,405.01** | **84,405.01** |

Yn y banc 30.06.2022 yn ôl y fantolen banc
31,517.01

<u>Llai sieciau heb fynd trwy'r banc:</u>

100041 Gwobr Rali – Ysbyty Ifan (50.00)

100043 Gwobr Rali – Y Rhiw (100.00)

Ychwanegu sieciau perthnasol a fanciwyd yng 07/2022

Siec Anfoneb Y Rhiw 698.81

Siec Anfoneb Cool Hire £2,000

Siec Anfoneb Dyffryn Madog £1,701.69

Siec Rhodd Cyngor Cymuned Bontnewydd £200.00

Siec Rhodd NFU i’r Rali £2,000.00 5,101.69

Yn y banc 30.06.2022 37,167.51

**TRYSORYDD: ____________________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:____________________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

# MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2022

**Cyfrif Cadw HSBC 81846612**

| | DERBYNIADAU | TALIADAU |
|---|---|---|

| | £ | £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2021 | 63,086.55 | |
| Trosglwyddo o'r Cyfredol HSBC | 0.00 | |
| Trosglwyddo i'r Cyfredol HSBC | | 0.00 |
| Llog | 14.22 | |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2022 | | 63,100.77 |
| **CYFANSWM** | **63,100.77** | **63,100.77** |

**TRYSORYDD: ________________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:________________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2022

**Cyfrif Tripiau HSBC - 61846590**

| | **DERBYNIADAU** **£** | **TALIADAU** **£** |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2021 | 676.30 | |
| Ffioedd Banc | | 30.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2022 | | 646.30 |
| **CYFANSWM** | **676.30** | **676.30** |

**TRYSORYDD:** ____________________________________________

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:_________________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2022

**Cyfrif Hyfforddiant HSBC - 81846604**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2021 | 6,435.49 | |
| Trosglwyddiadau i’r HSBC Cyfredol * | | 1,699.00 |
| Trosglwyddiadau o’r HSBC Cyfredol | 1,649.00 | |
| Ffioedd Banc | | 32.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2022 | | 6,353.49 |
| **CYFANSWM** | **8,084.49** | **8,084.49** |

*

Defnyddir llyfr siec y cyfrif hwn yn hytrach na chyfrif Cyfredol HSBC er mwyn gwneud y taliadau canlynol.

£100.00 – Fflot ariannol Noson Codi Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

£1,299.00 – Taliad anfoneb Clwb Golff Caernarfon ar gyfer Parti Nadolig y Sir

£250.00 – Taliad i’r Ganolfan Porthmadog ar gyfer yr Eisteddfod Sirol

£50.00 – Taliad i’r Ras Aredig

Mae’r taliadau uchod wedi eu cynnwys o dan y penawadau penodol ym mantolen HSBC Cyfredol am eu bod wedi eu had-dalu oni bai am y £50.00 Ras Aredig sydd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn ac yn cael ei dalu’n ol i’r cyfrif yn 2022-23

*

**TRYSORYDD: ____________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:____________________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

**FFEDERASIWN FFERMWYR IFANC ERYRI**

England & Wales - Charity number 1167065

# Accounts

**COFNODION PWYLLGOR BLYNYDDOL CFFI ERYRI**

**Dyddiad: 24 Medi 2021**

**Amser: 19:30**

**Lleoliad: Sied Bryn Mawr, Llanaelhaearn**

---

| | | P G |
|---|---|---|
| | **Croesawodd Beca pawb i'r Pwyllgor.**<br><br>**Atgoffwyd pawb i sicrhau eu bod wedi darparu eu manylion at ddibenion tracio ac olrhain. Gofynnwyd yn garedig i bawb wisgo mwgwd wrth gerdded o amgylch y sied. Nodwyd y byddwn yn galw ar bawb fesul bwrdd i fynd i nôl bwyd.** | |
| 1. | **YMDDIHEURIADAU:**<br><br>Mair Parry, Sian ac Eilir Evans, Mari Roberts, Geraint Harper, Ela Fflur. | |
| 2. | **PRESENNOL**:<br><br>Beca Glyn (Cadeirydd y Sir), Meinir Owen (Is-gadeirydd y Sir), Ann Williams (Llywydd y Sir), Elin Jones (Trysorydd), Caryl Haf (Cadeirydd CFFI Cymru), Glyn Owen, Hafwen Owen, Myfanwy Harper, Geraint Roberts, Gwen Thomas, Robat Thomas, Sioned Thomas, Glesni Owen, Elenid Alun, Rhodri Sion, Huw Arfon, Sara Evans, Rhodri Jones, Elin Jones, Miriam Williams, Lisa Evans, Gwenno Jones, Gwynedd Watkin (FUW), Iwan Harper, Gethin Harper, Glesni Jones, Aled Williams, Gwilym Roberts, Manon Bryn, Non Griffith, Alaw Morgan, Elin Morgan, Eleri Evans, Eirian Owen, Osian Jones, Cynwal ap Myrddin, Geraint Puw, Eleri Roberts, Glyn Roberts (FUW), Dafydd Parry, William Owen, Elis Griffith, Sioned Roberts, Gethin Wynne, Huw Roberts, Ifan Hughes, Aron Lewis, Jac Wyn, Morgan Owen, Llion, Owain Lewis, Morgan Hughes, Rhodri Lloyd ac Elis Jones. | |
| 3. | **DERBYN COFNODION**:<br>Derbyn Cofnodion – 04.11.2020:<br>Derbyniwyd y cofnodion yn gywir gan Manon ac eiliodd Meinir. | |
| 4. | **MATERION YN CODI**:<br>Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cofnodion. | |
| 5. | **GOHEBIAETH**<br>Nodwyd bod Taith Feics Ffermwyr Llŷn ac Eifionydd yn cael ei chynnal Dydd Sadwrn, 9 Hydref. Nodwyd eu bod yn cychwyn o Fart Bryncir ac yn beicio i Abersoch. Bydd Swper am £20 y pen ac Ocsiwn i ddilyn. Bydd yr elw yn mynd tuag at Awyr Las, Canolfan Gwystl a'r DPJ Foundation. | |
| 6. | **ADRODDIAD CADEIRYDD Y MUDIAD - BECA GLYN - YSBYTY IFAN** | |

| | | |
|---|---|---|
| | *Mae copi wedi ei atodi | |
| **7.** | **ADRODDID ARIANNOL - ELIN JONES**<br>*Mae copi wedi ei atodi | |
| **8.** | **ANERCHIAD Y LLYWYDD - MRS ANN WILLIAMS, BRYN MEIRION, LLITHFAEN**<br><br>Rwyf yn teimlo’n freintiedig iawn o fod wedi cael bod yn llywydd mudiad Ffermwyr Ifanc Eryri a hynny am ddwy flynedd. Mewn amser, pan fyddwch yn hen fel fi dwi’n siŵr y caiff rhai ohonoch wadd i fod yn llywydd, cofiwch chi dderbyn, peidiwch â meiddio gwrthod.<br><br>Rhwystrodd y covid lawer o bethau o fewn y mudiad yn y flwyddyn a hanner dwytha ond dalwyd i gael rhai cystadlaethau a chyfarfodydd yn rhithiol. Diolch i'r rhai a fu yn ymwneud a’r zoom ayyb.<br><br>Fel y gwyddoch, mudiad unigryw iawn yw mudiad y ffermwyr ifanc, mudiad sy’n rhoi cyfleoedd i aelodau, arweinyddion a llywyddion.<br><br>Eleri, Eleri Trefnydd, Babsen, llawer o enwau ond un person ydi hi ,un person a gyflawnodd lawer iawn tra yn drefnydd Eryri am tua 15eg mlynedd. Dwi’n cyfri fy hun yn andros o lwcus fy mod i wedi bod yn arweinydd Clwb Godre’r Eifl tra roedd Eleri yn drefnydd. Dwi ddim am ddweud dim mwy am Eleri, gwaith Beca Glyn yw gwneud hynny bellach ymlaen yn y cyfarfod.<br><br>Er nad oes arweinydd ar hyn o bryd mae’r mudiad yn Eryri yn dal mewn dwylo saff Swyddogion y Sir, Pwyllgor Gwaith a Phwyllgor Cyllid a Staffio; diolch i chi gyd.<br><br>Mae yna her och blaenau chi aelodau, her i godi’r clybiau yn nol ar eu traed ar ôl toriad hir oherwydd covid a her o gael mwy o aelodau  i ymuno. Dwi’n hollol ffyddiog y gwnewch chi lwyddo i gyflawni hyn oherwydd bod gennych y brwdfrydedd, ffydd a chariad tuag at y mudiad gwych yma.<br><br>Daliwch ati bobol ifanc , annwyl Eryri. | |
| **9.** | **ADRODDIADAU PWYLLGORAU**<br>**a. Cyllid a Staffio: Miriam Williams, Is Gadeirydd**<br>• Mae copi wedi ei atodi<br>**Rali: Robat Thomas, Cadeirydd, Y Rhiw**<br>• Nodwyd nad oedd fawr o ddiweddariad a'u bod yn croesi bysedd y cawn ni groesawu Rali wyneb yn wyneb i Fferm Gwythrian ym mis Mai.<br>• Nodwyd bod rhan helaeth o'r trefniadau yn eu lle ers Rali 2020. | |

| | | |
|---|---|---|
| | **b. Eisteddfod: Rhodri Sion, Cadeirydd, Llanrwst**<br>• Nodwyd bod Eisteddfod CFFI Eryri yn cael ei chynnal ar 23 Hydref.<br>• Nodwyd bod y pecynnau cystadlu i gyd wedi eu rhannu gyda'r Clybiau.<br>• Nodwyd bod CFFI Cymru wedi cyhoeddi na fydd yna gystadleuaeth Côr eleni.<br>• Nodwyd nad cheir mwy na 16 mewn unrhyw eitem eleni.<br>• Anogwyd i Glybiau a'r aelodau i gystadlu.<br>**c. Hyfforddiant: Gwen Thomas. Cadeirydd, Dyffryn Nantlle**<br>• Nodwyd nad yw'r Pwyllgor wedi cyfarfod ers cyn cyfnod Cofid ond eu gobaith ydi gallu ail afael yn y rhaglen hyfforddiant unwaith y bydd y Clybiau a'r Sir wedi cael cyfle i gael eu traed oddi tanynt. | |
| **10.** | **ETHOL SWYDDOGION Y MUDIAD am 2021/2022**<br>**a. Llywydd**<br>• Cynigiodd Rhodri Sion, Llanrwst Mr Geraint Roberts, Tyddyn Wilym ac eiliodd Gethin Wynne, Rowen. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law.<br>**b. Is Lywydd**<br>• Cynigiodd Dafydd Parry, Dyffryn Madog Mr Geraint Puw ac eiliodd Gwen Thomas, Dyffryn Nantlle. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law.<br>**c. Cadeirydd**<br>• Cynigiodd Cynwal ap Myrddin, Llangybi Meinir Owen, Llangybi ac eiliodd Non Griffith, Caernarfon. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law.<br>**Ch. Is-Gadeirydd**<br>• Cynigiodd Glesni Jones, Dyffryn Nantlle Gwen Thomas, Dyffryn Nantlle ac eiliodd Cynwal ap Myrddin, Llangybi. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law.<br>**d. Trysorydd ac Is Drysorydd**<br>• Cynigiodd Beca Glyn, Ysbyty Ifan Elin Jones, Godre'r Eifl yn Drysorydd a Glesni Jones, Dyffryn Nantlle yn Is Drysorydd, eiliodd Meinir Owen, Llangybi. Ni ddaeth unrhyw gynnig arall i law. | |
| **11.** | **CADARNHAU CYFANSODDIAD AC YMDDIRIEDOLWYR Y MUDIAD**<br><br>Cynigiodd Meinir Owen, Llangybi bod y canlynol yn gweithredu fel ymddiriedolwyr y Mudiad am y flwyddyn 2021/2022:<br><br>• CFFI Caernarfon: Sioned Jones a Non Griffith<br>• CFFI Dyffryn Madog: Dafydd Parry ac Elis Griffith<br>• CFFI Dyffryn Nantlle: Glesni Bowness Jones a Lois Elan Jones<br>• CFFI Dyffryn Ogwen: Iwan Harper ac Elin Thomas.<br>• CFFI Godre'r Eifl: Manon Jones a Miriam Williams<br>• CFFI Llangybi: Cynwal ap Myrddin a Morgan Jones<br>• CFFI Llanrwst: Huw Arfon Roberts a Dylan Roberts<br>• CFFI Porthdinllaen: Ela Fflur Jones ac Anna Wyn Jones<br>• CFFI Rowen: Gethin Wynne ac Elliw Jones<br>• CFFI Y Rhiw: Robat Thomas a Sioned Thomas<br>• CFFI Ysbyty Ifan: Elenid Alun ac Erin Evans<br>• Llywydd: Geraint Roberts | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Is Lywydd: Geraint Puw<br>• Cadeirydd: Meinir Owen<br>• Is-Gadeirydd a Chadeirydd Pwyllgor Hyfforddiant: Gwen Thomas<br>• Trysorydd: Elin Jones<br>• Cadeirydd Pwyllgor Cyllid a Staffio: Myfanwy Harper<br>• Cadeirydd Pwyllgor Rali: Robat Thomas<br>• Aelod Hyn: Mari Roberts<br>• Aelod Iau: Deio Owen<br>• Cadeirydd Pwyllgor Eisteddfod: Rhodri Sion<br>Eiliodd Beca Glyn, Ysbyty Ifan y cynnig.<br><br>Ni chafwyd cynnig arall a chytunodd pawb. | |
| 12. | **OED AELODAETH**<br>• Nodwyd bod Cymru bellach wedi codi oed aelodaeth CFFI Cymru i 28. Nodwyd bod Pwyllgor Gwaith CFFI Eryri yn awyddus i newid oed aelodaeth y Sir i fod yn 13 - 30 mlwydd oed.<br>• Cynigiodd Miriam Williams, Godre'r Eifl ac eiliodd Meinir Owen, Llangybi.<br>• Ni chafwyd unrhyw gynnig arall. | |
| 13. | **TÂL AELODAETH**<br>• Nodwyd bod CFFI Cymru wedi gostwng lefi tâl aelodaeth i £10 eleni.<br>• Nodwyd bod y Pwyllgor Gwaith wedi pleidleisio i gadw lefi tâl aelodaeth CFFI Eryri'r un fath am eleni sef £15.<br>• Cynigiodd Elin Jones, Trysorydd ac eiliodd Glesni Jones, Is Drysorydd.<br>• Ni chafwyd unrhyw gynnig arall. | |
| 14. | **CYFLWYNO TYSTYSGRIFAU 2020-2021**<br>• **Hwsmon Iau'r Flwyddyn**: Elis Jones, Caernarfon<br>• **Stocmon Hŷn y Flwyddyn**: Beca Glyn, Ysbyty Ifan<br>• **Tîm Barnu'r Flwyddyn**: Ysbyty Ifan<br>• **Llenor y Flwyddyn**: Angharad Ellis, Dyffryn Madog<br>• **Bardd y Flwyddyn**: Meinir Owen, Llangybi<br>• **Pencampwr yr Eisteddfod (o'r Clybiau lleiaf)**: Porthdinllaen<br>• **Pencampwr yr Eisteddfod**: Llangybi<br>• **Pencampwr y Rali (o'r Clybiau lleiaf):** Godre'r Eifl a Phorthdinllaen<br>• **Cynrychiolwyr y Flwyddyn**: Llangybi<br>• **Pencampwr y Flwyddyn (o'r Clybiau lleiaf):** Godre'r Eifl a Chaernarfon<br>• **Pencampwr y Flwyddyn**: Ysbyty Ifan | |
| 15. | **UNRHYW FATER ARALL**<br>• Diolchodd Caryl Haf (Cadeirydd CFFI Cymru) am y croeso ac i'r Sir am gystadlu ar lefel Cymru yn ystod y flwyddyn. Atgoffwyd ni i ofyn am gymorth yn ystod y flwyddyn.<br>• Diolchodd Eleri Evans (Cyn Trefnydd CFFI Eryri) am bob cymorth a | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chefnogaeth. Anogodd yr aelodau i wneud y mwyaf o bob cyfle a dymunodd yn dda i'r Sir. | | |
| **16.** | **DIOLCHIADAU**<br>Talodd Meinir Owen, Is-Gadeirydd y Sir y diolchiadau.<br><br>Ar ddiwedd blwyddyn go wahanol mae gennym fel Ffermwyr Ifanc le i ddiolch yn fwy nac erioed.<br><br>Yn gyntaf hoffem ddiolch i Mrs Ann Williams am ei chefnogaeth fel Llywydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.<br><br>I Beca Glyn ein cadeirydd am ein harwain yn hwyliog trwy'r cyfnod pryderus hwn.<br><br>Diolch anferthol i Elin a Glesni am eu gwaith fel Trysoryddion- coeliwch chi fi, nid hawdd oedd hyn eleni gyda chynllun furlough yn newid trwy'r amser. Diolch genod.<br><br>Dwy a gafodd dipyn o gur pen yn ystod y flwyddyn oedd Mrs Harper a Miriam. Diolch o galon i chi'ch dwy am eich gwaith diflino a'ch cefnogaeth barhaus i'r swyddogion.<br><br>Diolch yn fawr i Gwen am gadw cofnodion graenus yn ein pwyllgorau Zoom dros y flwyddyn.<br><br>I gadeiryddion yr is-bwyllgorau am eu parodrwydd i fod yn hyblyg gyda ni dros y flwyddyn ddiwethaf.<br><br>Diolch yn fawr i'r clybiau a'r swyddogion am ddal ati gan sicrhau fod y Ffermwyr Ifanc dal yma er gwaetha'r Cofid.<br><br>Diolch yn fawr I Oink Oinc a Cwt Cwrw am ein bwydo a'n disychedu heno.<br><br>Ella fod yna rhoi ohonoch wedi sylwi fod yna ddau enw pwysig iawn ar ôl ac yn sicr i chi mae ein diolch yn fawr iawn i Eleri ac Elin Swyddfa, nid yn unig dros y flwyddyn ddiwethaf ond yn hytrach dros y blynyddoedd diwethaf.<br><br>Ar hynny, mi awn drosodd at Beca.<br><br>Diolch yn fawr i chi gyd am ddod.<br><br>Cyflwynwyd flodau i Eleri ac Elin fel arwydd o ddiolch am eu gwaith dros y blynyddoedd. | | |

Daeth y cyfarfod i ben am 21:05.

**Adroddiad y Cadeirydd**

Croeso cynnes i chi gyd yma heno i Bryn Bychan , mae ein diolch yn fawr i'r teulu am fod mor barod i gynnal ein pwyllgor blynyddol yn eich sied- diolch yn fawr i chi .

Braint ac anrhydedd oedd cael fy ethol yn Gadeirydd y sir nol yn Medi 2019. Roedd gennai dipyn o sgidia i'w llenwi yn dilyn llwyddiant Miraim fel cadeirydd . Roedd cadeirio fy mhwyllgor gwaith cyntaf yn reit frawychus, gan nad oeddwn wedi cael lawer o gyfle i gadeirio pwyllgorau o'r blaen . Dwi'n cofio dreifio am Gaernarfon yn poeni fy mod am neu smonach o'r pwyllgor, ond gyda geiriau doeth gan Eleri roedd y nerfau wedi diflannu a'r pwyllgor cyntaf wedi darfod .

Ers yn ifanc roeddwn yn deall pwysigrwydd y mudiad, dwi'n cofio mynd i rali yn flynyddol ac ysu am gael bod yr oed i ymaelodi a chael gwisgo crys ysbyty , er donim yn edrych mlaen i ganu yn y parti canu chwaith, yn anffodus llais canu fy nhad sgenai !

Pan ges fy ethol yn gadeirydd sir, rhybuddiodd aml un wrtha i fod ar amser, gan i bod nhw'n gwybod yn iawn fy mod yn hwyr i bob man a bod fy oriawr hanner awr tu ôl bawb arall , a doeddwn i fethu bod yn hwyr i bwyllgor gwaith gan mai fi oedd yn cadeirio .

Fel cadeirydd sir un o'r pethau mi oni i yn sicr isho ei wneud oedd ymweld â bob clwb .Es i ar goll yn trio ffeindio aelodau clwb godre'r eifl a rywsut mynd i neuadd yn rwla ym mhen llyn a strybio clwb henoed yn gweu , mi o i reit sicr fy mod i yn y lle anghywir - doedd yna ddim lawer o olwg ffermwyr ifanc arnynt .Esi draw at glwb y rhiw hefyd i ysgol Botwnnog a chynnal cwis er i'r aelodau fy nghywiro gan fod rhai o atebion fy nghwis yn anghywir! Es i draw at ddyffryn Nantlle a rwsut cael fy double bwcio efo hanesydd lleol ,gesim neud y cwis ond gesi ddysgu dipyn am ardal dyffryn Nantlle!!

Daeth y steddfod fel bob blwyddyn a fy rôl i oedd nol bobl o gefn llwyfan - mae'n rhaid i mi ddweud fy mod wedi mwynhau cefn y llwyfan yn cael sgwrs efo bob cystadleuydd , helpu bach ar eu nerfau wrth rannu fferins a'r peth fwyaf cŵl i mi oedd cael walkie talkie er mwyn siarad efo'r boi Sain, er mai gofyn am baned oedd

Aled ar walkie talkie rhan fwyaf . Dwi ddim yn dallt lawer am ganu ond roedd clywed côr Eryri yn canu ein halaw ni yn steddfod Cymru yn hollol wych ac yn rhoi trydan yn fy esgyrn ac yn gymaint o falchder i fi o'r aelodau, mae'r geiriau dal mor glir heddiw

Ma na hyder yn ein nodau ,ma na undod yn ein can ,Mae na fudiad syn gyfeiliant ir holl leisiau mawr a man,paid ag ofni maint y llwyfan paid a amau grym y gan

Yma fe fydd lle ith ddoniau yma fe wnei ffrindiau oes

Mae geiriau yn dweud gymaint i ni am y ffermwyr ifanc

Bob blwyddyn rydym yn cynnal diwrnod ffair aeaf ac am y tro cyntaf yn 2019 penderfynwyd neu'r barnu carcas a chystadleuaeth cyw iâr gydag Arwel y cigydd yn Llanrwst .Fel cadeirydd sir teimlais gyfrifoldeb i drio yn y gystadleuaeth cyw iâr newydd yma , felly dyma fi gofyn am gymorth gan Jane Pennant i ddysgu sut ma trin cyw iâr .Felly dyma ni yn cyraedd y cigydd efo gear i gyd i baratoi cyw iar a neb arall efo ddim byd tebyg i fi!! Yn anffodus i fi mi nes i ddarllen y rheolau yn anghywir-torri cyw iâr yn ddarnau oedd angen a doedd genais syniad su ma neud a gwyn bach oedd yn fy erbyn yn gwybod iawn su ma neu wel yn 2il agos nesi ddod !!!

Dwi fwy o berson barnu ac mae bob amser yn gystadleuaeth rhyngof i ar chwaer ar gael y gore .Mae yna bob tro ryw gyffro ar ddiwrnod ffair aeaf lle ma pawb isho mynd drwodd i'r ffair aeaf a rhyw naws Nadoligaidd braf .Er bob blwyddyn ma pawb yn ysu am fynd adre erbyn diwedd wedi oeri yn sefyll o gwmpas drwy ddydd !Pan da chi ennill yn y sir a mynd drwodd i gynrychioli Eryri yn yng Nghymru mae'n anrhydedd yn ogystal â thipyn o gyfrifoldeb . **Dwi'n cofio un flwyddyn cystadlu yn y barnu gwartheg yng Nghymru .Wrth gwrs fues i yn cymdeithasu gormod y noson gynt ,mi oedd Eleri wedi warnio fi beidio bod yn hwyr a bod yn lle cffi Cymru am 10 .Wel nesi godi hwyr efo cur pen mawr, rasio lawr am cffi Cymru a chyrraedd 11. Diolch byth fod Eleri wedi deuthai i ddod erbyn 10 yn gwybod iawn fyddai'n hwyr- 11 oedd y gystadleuaeth yn cychwyn .Dyma ni dechrau ar y barnu a gorfod mynd nôl a blaen i'r toilet i daflu fyny .Gorffen barnu syth wedyn at fy ffrindiau i members ,cal galwad gan Eleri i ddod i cffi Cymru, rhedeg yno a dallt fod fi wedi ennill y barnu o dan 26. Dipyn o sioc ,dwi ddim yn meddwl i fi neud lawer o argraff yn ol fy nharian yn fy nillad mynd allan .Ond weithiau ma pethe gorau yn digwydd pan da chi lleiaf yn ei ddisgwyl ,Rhaid i fi ddweud fod yna dipyn o ddathlu yn y members noson honno .**

Wrth gwrs , blwyddyn yma ma hi wedi bod yn flwyddyn heriol gyda delio gyda covid .Pan roedd son am covid dwi cofio trafod y peth yn ysgafn iawn yn ein steddfod ffug ,a ninnau pythefnos yn ddiweddarach yn cael cyfarfod brys yn NFU Caernarfon ar y ffordd ymlaen a sut i ddelio gyda covid , dwi'n meddwl bod pawb oedd yno noson honno ddim wedi dychmygu y byddem wedi gormod delio efo gymaint o broblemau yn sgil y covid. Rydym yn hynod o ffodus o gael pwyllgor cyllid a staffio pen i gamp a lwyddodd i ddygymod a phopeth a sicrhau fod materion fel y furlough yn cael ei ddelio yn broffesiynol iawn .

Yr hyn ddangosodd covid i ni oedd cryfder y mudiad a cymunedau gwledig ni yng nghymru. Roeddwn yn ffodus o gael byw yng nghefn gwlad lle roeddem yn cael

crwydro ein hardaloedd a chael mwy o ryddid na llawer o rhai mewn trefi a dinasoedd mawr .Roedd gennym ni gefnogaeth ein cymunedau ac mae ein diolch yn fawr iawn i'r aelodau hynny aeth allan i helpu rhai mewn angen yn eich cymunedau .

Rhaid oedd canslo holl ddigwyddiadau yn cynnwys y Rali a oedd yn dipyn o sioc a thristwch i ni , felly ers y noson honno, rydym wedi bod yn ddibynnol ar zoom a diolch byth amdano dros y flwyddyn ddiwethaf .

Rhaid dweud diolch yn fawr i bawb sydd wedi cefnogi'r Sir er mwyn ein galluogi i gario mlaen ac diolch fawr ir holl aelodau am aros ân amyneddgar drwy'r holl heriau. Braf oedd gweld video ar facebook gan yr aelodau yn ganol lockdown yn canu 'Gorwedd gyda'i nerth' rhaid dweud fe gododd galon nifer iawn o bobl .

Braf iawn nol yng ngwanwyn eleni oedd o'r diwedd cael cynnal pwyllgor gwaith wyneb yn wyneb cyntaf ers Chwefror 2019 .Roedd hi mor braf cael sgwrs gyda phawb a chael gossip lle oedd yn amhosib cael dros zoom

Rhaid i mi ddiolch i bawb am roi hyder ,arweiniad a chymorth i mi dros y ddwy flynedd diwethaf ma, mae hi wedi bod yn gyfnod reit ryfedd i fod yn gadeirydd sir ond rwy'n werthfawrogol iawn i'r mudiad am roi'r cyfle gwerthfawr yma i mi a phob lwc i ti Meinir, ti'n siŵr o wneud gwaith arbennig o dda yn llywio'r sir yn y flwyddyn nesa . Mae fy nyled yn fawr i'r swyddogion sir sydd bob amser wedi bod yno i roi help llaw a chymorth drwy gydol fy nwy flynedd .

Felly i gloi efo darn allan o Gwawr , gan Mei Mac sydd yn cyfleu mudiad y ffermwyr ifanc

Ni yw sŵn y presennol - ni yw'r

Her ,yn dwf o hyder

Ni yw'r dyfodol

**<u>Adroddiad Trysorydd Eryri 2020-21</u>**

Ar y 30 o Fehefin eleni, dyma'r balansau oedd yng nghyfrifon banc y ffederasiwn:

- Cyfrif Cyfredol Natwest £6,212.06
- Cyfrif Clwb 200 Natwest £45.00
- Cyfrif Cyfredol HSBC £9,782.30
- Cyfrif Cadw HSBC £63,086.55
- Cyfrif Tripiau £676.30
- Cyfrif Hyfforddiant £6,435.49

Ni aeth arian i mewn nac allan o gyfrif Cadw na Thripiau Natwest eleni a felly roedd eu balansau yn £0.00 a gwerth y ffederasiwn yn yn £86,237.70 ar y 30 o Fehefin, 2020. £78,118.12 oedd gwerth y ffederasiwn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol blaenorol. Rydym yn falch ar ôl blwyddyn tra gwahanol i bawb yn sgîl y pandemic, fod y ffederasiwn wedi gallu sefyll ar ei thraed yn ariannol. Mae hyn wedi bod yn bosib oherwydd rhoddion hael gan Gynghorau Cymuned yn ogystal â grantiau un-tro sylweddol ydym wedi ei dderbyn gan haelioni sefydliadau megis yr NFU, prosiect Mantell Gwynedd gan Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru, a rydym yn werthfawrogol iawn o hyn.

Nid oedd hi'n bosib cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb eleni a rhyfedd ydi gweld dim gwariant a dim incwm yn erbyn penawdau megis yr Eisteddfod, Ffair Aeaf a'r Rali eleni.   Bu rhaid i ni fod ychydig yn fwy creadigol eleni wrth gynnal digwyddiadau codi arian i'r mudiad.  Bûm i ni gyflawni sialens rhithiol gan gerdded, rhedeg neu feicio o Swyddfa Eryri i'r Swistir, Twrci ac yna'r Eidal oedd yn 5,557.10 millitir a hynny mewn mis.  Yn ogystal cynhaliwyd Raffl Nadolig rhithiol ble roeddem yn ffodus o gwmnïau lleol wnaeth gynhyrchu ambell i hamper arbennig i ni.  Diolch i rhai oedd yng nghlwm â'r digwyddiadau fel rhain ac i bawb am eu parodrwydd i gefnogi drwy gydol y flwyddyn wahanol hon.

Eto eleni, diolchwn i Gyngor Sir Conwy sydd wedi rhoi £2,500 yn grant i ni.

Diolchwn hefyd i aelodau Cynllun Ffrindiau'r mudiad am eu haelioni eto eleni.  Mae pob aelod yn buddsoddi unai £100 yn flynyddol neu £8.50 pob mis gan dderbyn amrywiol fuddiannau yn sgîl eu haelodaeth.   Bellach mae gennym dros 70 aelod yn rhan o'r Cynllun felly mae'r mudiad yn derbyn dros £7,000 o'r cynllun ac rydym yn ddiolchgar dros ben i pob un o aelodau'r cynllun.  Mae croeso i unrhyw un o'r newydd ymuno â'r cynllun neu ymuno â Chlwb 200 y Sir ble gellir ennill symiau ariannol drwy gydol y flwyddyn.

Hoffwn dynnu eich sylw at ddau gynllun arall sydd yn helpu'r Sir yn ariannol.  Os ydych chi neu rhywun o'ch teulu yn gwerthu wyn i'r cwmni Dunbia, mae'r cwmni yn cyd-weithio gyda CFFI Cymru i sicrhau y caiff y mudiad fuddion ariannol os ydy eu haelodau yn gwerthu eu cynnyrch i Dunbia.  Croeso i chi ddod ata i os ydych eisiau mwy o fanylion am hynny.  Yn ail, os ydych chi'n berson sydd yn gwneud tipyn o siopa ar-lein, gallwch greu cyfrif ar wefan a elwir yn 'Easy Funding' sydd yn ymrwymo i roi canran o'ch gwariant chi yn syth i elusen, ac mae CFFI Eryri wedi cofrestru fel elusen ar y wefan hon.  Rydym eisoes wedi gwneud ychydig o arian drwy'r cynlluniau bychain hyn a rydym yn ddiolchgar dros ben.

Rydym yn parhau i fod yn gyfrifol am ein cyflogres ein hunain ac hoffwn ddiolch yn arbennig i gwmni cyfrifydd Richard Williams a'i gwmni am eu parodrwydd i weinyddu'r cyflogau ar ein rhan eto eleni.  Mae'r cyfrifwyr wedi bod yn gefn mawr i ni drwy gydol y cyfnod ansefydlog hwn a greuwyd yn sgil y pandemic ac roedd eu parodrwydd i ddelio â chyflwyno hawliadau Furlough ar ein rhan yn arbennig.

Hoffwn roi sylw i'r gefnogaeth ydw i'n ei dderbyn gan holl swyddogion, is-bwyllgorau ac aelodau'r Sir.  Mae eu gwaith di-flino nhw yn sicrhau parhad llewyrchus i'r mudiad.  Diolch yn arbennig i Meinir a deulu Bryn Mawr am drefnu'r noson arbennig hon – braf ydy cael dod at ein gilydd i gyd wedi blwyddyn ar wahân.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i ddwy ddynes arbennig iawn sef Eleri ac Elin.  Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll heno, mi fydd y mudiad ar ei cholled yn aruthrol heb y ddwy ohonynt.  Mae'r ddwy wedi bod yn gefn aruthrol imi drwy gydol fy amser fel aelod ac yna fel Trysorydd.  Mae gen i atgofion melys o sgyrsiau hir efo Elin yn y swyddfa yn rhoi'r byd yn ei le.  Ac atgofion llu efo Eleri o'r Trip Dirgel i Langollen, i ddawnsio'n y Silent Disgo'n y Sioe a bwyta Madonalds cyn Bwyllgorau gyda'r nos.  Yn sicr dwi a phawb arall yn mynd i'w methu yn fawr, nid yn unig am eu sgiliau trefnus a'u dawn yn eu gwaith, ond hefyd am y cyfeillgarwch a charedigrwydd Eleri ac Elin.  Diolch i'r ddwy ohonoch am bob un dim ac edrychaf ymlaen i'ch gwahodd yn ôl i ddigwyddiadau'r Sir dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Diolch yn fawr i bawb.

Elin

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## RTH Y FFEDERASIWN AR MEHEFIN 30ain 2021

| | |
|---|---|
| Cyfrif Cyfredol *(NATWEST)* | £6,212.06 |
| Cyfrif Cadw *(NATWEST)* | £0.00 |
| Cyfrif Clwb 200 *(NATWEST)* | £45.00 |
| Cyfrif Tripiau *(NATWEST)* | £0.00 |

Cyfrif Cyfredol *(HSBC)* £9,782.30

Cyfrif Cadw *(HSBC)* £63,086.55

Cyfrif Tripiau *(HSBC)* £676.30

Cyfrif Hyfforddiant *(HSBC)* £6,435.49

**Cyfanswm** **£ 86,237.70**

(Gwerth y Ffederasiwn ar Mehefin 30ain 2020 = £78,118.12)

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2021

### Cyfrif Cyfredol Natwest 15500039

| | **DERBYNIADAU**<br>**£** | **TALIADAU**<br>**£** |
|---|---:|---:|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2020 | 8,085.10 | |
| Swyddfa | 0.00 | 424.88 |
| Llungopiwr | 0.00 | 1,448.16 |
| Grant gan Cyngor Conwy | 5,000.00 | 0.00 |
| Trosglwyddo i'r Cyfrif Cyfredol HSBC | 0.00 | 5,000.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2021 | | 6,212.06 |
| **CYFANSWM** | **13,085.10** | **13,085.10** |

**TRYSORYDD:** ______________________________

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:________________________________________________**

**Glesni Jones Is-drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2021

**Cyfrif Cadw Natwest - 15511588**

| | DERBYNIADAU £ | TALIADAU £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2020 | 0.00 | |
| Trosglwyddo i'r Cyfredol Natwest | | 0.00 |
| Llôg | 0.00 | |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2021 | | 0.00 |
| **CYFANSWM** | **0.00** | **0.00** |

**TRYSORYDD: __________________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:__________________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2021

**Cyfrif Clwb 200 Natwest – 15500063**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2020 | 1,350.00 | |
| Tal Aelodaeth | 1,754.00 | |
| **Canslo hen sieciau heb eu cyflwyno | 20.00 | |
| Trosglwyddiad i Gyfrif Cyfredol HSBC | | 2,021.00 |
| Gwobrau 2019-20 | | 401.00 |
| Gwobrau 2020-21 | | 657.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2021 | | 45.00 |
| **CYFANSWM** | **3,124.00** | **3,124.00** |

***Canslo hen sieciau heb eu cyflwyno:*

001169 1af Tachwedd 2019 (89) 20.00

**TRYSORYDD: ______________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:______________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2021

**Cyfrif Tripiau Natwest - 73751073**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2020 | 0.00 | |
| Trosglwyddo i'r cyfrif Cyfredol HSBC | 0.00 | 0.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2021 | | 0.00 |
| **CYFANSWM** | **0.00** | **0.00** |

**TRYSORYDD: ___________________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:___________________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2021

**Cyfrif Cyfredol HSBC - 51846477**

| | DERBYNIADAU £ | TALIADAU £ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2020 | 8,955.63 | |
| Aelodaeth 2019-20 | 925.00 | 7,129.20 |
| Yswiriant 2019-20 | 2,930.69 | 0.00 |
| Yswiriant 2020-21 | 2,810.64 | 2,807.91 |
| Cardiau Aelodaeth | 518.75 | 508.78 |
| Rali 2020-21 | 0.00 | 0.00 |
| Erwau 2020-21 | 0.00 | 0.00 |
| Eisteddfod Sir Eryri | 0.00 | 0.00 |
| Eisteddfod Cymru | 0.00 | 0.00 |
| Eisteddfod Rithiol | 0.00 | 20.00 |
| Ffair Aeaf | 0.00 | 0.00 |
| Siarad Cyhoeddus | 0.00 | 0.00 |
| Cynghorau Cymuned | 2,080.00 | 0.00 |
| Raffl Nadolig | 542.00 | 109.98 |
| CFfI Cymru – Cynllun Wyn Dunbia | 59.60 | 0.00 |
| Taith Gerdded i'r Ewros – Rhithiol | 598.60 | 0.00 |
| Swyddfa | 75.00 | 1,092.73 |
| DBS | 24.00 | 0.00 |
| Clwb 100 | 12.00 | 12.00 |
| Cynllun Ffrindiau | 5,532.00 | 0.00 |
| Grant Llywodraeth Cymru | 5,517.00 | 0.00 |

| | | |
|---|---|---|
| Grant Busnes Covid | 20,000.00 | 0.00 |
| Grant Mantell Gwynedd | 1,000.00 | 0.00 |
| Gwariant Grant Mantell Gwynedd | 0.00 | 350.00 |
| Grant NFU | 6,451.62 | 0.00 |
| Paypal – ‘Easy Funding’ | 274.09 | 0.00 |
| Calender CFFI Cymru | 52.50 | 80.00 |
| CFFI Cymru | 0.00 | 50.00 |
| Costau Teithio | 0.00 | 0.00 |
| CFFI Porthdinllaen | 875.28 | 875.28 |
| Marchnata | 384.00 | 384.00 |
| Cyfrifydd | 0.00 | 450.00 |
| Hysbysebu Swydd | 0.00 | 150.00 |
| Trosglwyddo o’r Cyfrif Cyfredol Natwest | 5,000.00 | 0.00 |
| Trosglwyddo o’r Cyfrif Cadw HSBC | 21,539.75 | 0.00 |
| Trosglwyddo o’r Cyfrif Clwb 200 | 2,021.00 | 0.00 |
| Trosglwyddo i’r Cyfrif Cadw HSBC | 0.00 | 32,004.00 |
| Cyflogau 2018-19 | 0.00 | 21,539.75 |
| Cyflog 2020-21 | 0.00 | 27,362.08 |
| Cynllun Furlough | 16,528.86 | 0.00 |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2021 | | 9,782.30 |
| **CYFANSWM** | **104,708.01** | **104,708.01** |

**TRYSORYDD:** ______________________________

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:_____________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2021

**Cyfrif Cadw HSBC 81846612**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2020 | 52,615.60 | |
| Trosglwyddo o’r Cyfredol HSBC | 32,004.00 | |
| Trosglwyddo i’r Cyfredol HSBC | | 21,539.75 |
| Llog | 6.70 | |
| Yn y Banc Mehefin 30ain 2021 | | 63,086.55 |
| **CYFANSWM** | **84,626.30** | **84,626.30** |

**TRYSORYDD:** ____________________________________________

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda’r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:**____________________________________________

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2021

**Cyfrif Tripiau HSBC - 61846590**

| | **DERBYNIADAU**<br>**£** | **TALIADAU**<br>**£** |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2020<br><br>Yn y Banc Mehefin 30ain 2021 | 676.30 | <br><br>676.30 |
| **CYFANSWM** | **676.30** | **676.30** |

**TRYSORYDD: ________________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:________________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

# CLYBIAU FFERMWYR IEUAINC ERYRI

## MANTOLEN AM Y CYFNOD YN DIWEDDU MEHEFIN 30ain 2021

**Cyfrif Hyfforddiant HSBC - 81846604**

| | DERBYNIADAU<br>£ | TALIADAU<br>£ |
|---|---|---|
| Yn y Banc Gorffennaf 1af 2020<br><br><br>Yn y Banc Mehefin 30ain 2021 | 6,435.49 | <br><br><br><br>6,435.49 |
| **CYFANSWM** | **6,635.49** | **6,635.49** |

**TRYSORYDD: ______________________________________________**

**Elin Owen Jones**

**Archwilwyd a cadarnhawyd yn gywir yn unol gyda'r wybodaeth a roddwyd**

**ARWYDDWYD:______________________________________________**

**Glesni Jones Is-Drysorydd CFFI Eryri**

**Adroddiad Pwyllgor Cyllid a Staffio**

Wel, lle mae dechrau? Mae hi wedi bod yn 12 mis anodd a dweud y lleiaf. Tua'r adeg yma y llynedd, death Eleri ac Elin yn nol i weithio yn rhan amser ar y cynllun flexi furlough, ar ôl bod adref o'u gwaith ers ganol Mawrth. 'Da ni wedi bod yn ffodus iawn o ddau beth dros y flwyddyn ddiwethaf, sef cefnogaeth ariannol drwy'r cynllun furlough a hefyd parodrwydd ein staff i dderbyn y trefniadau gweithio newydd. Am gyfnod felly, bu'r ddwy yn gweithio 40% o'u horiau arferol, ac roedd hynny'n help mawr wrth i ni drio ail gydio ym mhethau o ran gweigareddau a threfniadau sirol ac yn y clybiau.

Ymlaen â ni wedyn at y gwanwyn eleni, a'r newyddion trist bod Eleri ac Elin eu dwy yn ein gadael ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth. Nid fi fydd yr unig un heno i dalu diolch i chi'ch

dwy am eich gwasanaeth a'ch cefnogaeth dros y blynyddoedd, ond diolch o galon i chi yr un fath.

Ymlaen a ni wedyn at y dasg o recriwtio olynydd – fel pwyllgor, gyda chefnogaeth y pwyllgor gwaith, mi benderfynom ni beidio recriwtio am ysgrifennydd am y tro, tan i bethau ail godi'n iawn, ac yn hytrach canolbwyntio ar geisio recriwtio ar gyfer rôl y Trefnydd. Yn anffodus, cafwyd dwy rownd aflwyddianus o recriwtio. Ond, mae'r Pwyllgor, gyda chymorth rhai o swyddogion y pwyllgor gwaith, wedi penderfynu addasu'r swydd ddisgrifiad riw fymryn, a newid y teitl swydd. Yn fuan iawn felly mi fyddwn ni'n recriwtio am Swyddog Cefnogi Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri, ac yn gofyn unwaith eto am bob cefnogaeth wrth rannu'r swydd yn eang er mwyn dennu ymgeiswyr.

Yn y cyfamser, rhaid i mi ddiolch i'ch swyddogion – dyma griw gweithgar tu hwnt sydd wedi bwrw mlaen gyda'r gwaith gweinyddol o redeg y sir, a hynny ar ben eu swyddi llawn amser. Diolch o galon i bob un ohonoch chi, a dwi'n mawr obeithio na fydd angen i chi wneud hyn yn hir iawn eto.

Gobeithio felly y gallwn eich diweddaru gyda newyddion da ein bod yn gallu cyflogi aelod o staff yn fuan iawn. Tan hynny, ac ar ran Mrs Harper a minnau, mi faswn i'n licio diolch i bob un sydd yn cyfrannu at waith y Pwyllgor Cyllid a Staffio, a diolch i chi am bob cydweithrediad a chefnogaeth dros y 12 mis diwethaf. Mae'n diolch ni'n fawr hefyd i'r ddwy aelod o staff, Eleri ac Elin, am fod mor barod i gydweithio hefo ni dros y flwyddyn heriol a fu. Mae'r pwyllgor yn dymuno pob hwyl i chi'ch dwy yn y dyfodol.

Diolch.